

1 CYFLWYNIAD

1.1 Rhan 2A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, 1990

1.1.1 Crëwyd y drefn tir llygredig ar 1^{af} Gorffennaf 2001, pan roddodd Adran 57 Deddf yr Amgylchedd 1995 Ran 2A i mewn i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (y byddwn yn cyfeirio ato fel Rhan 2A). Cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Rheoliadau Tir Llygredig (Cymru), 2001 a chyfarwyddyd cysylltiedig, sydd wedi eu diwygio ers hynny. Diwygiwyd y Rheoliadau gwreiddiol yn 2006 ac unwaith eto yn 2012 a chyhoeddwyd cyfres ychwanegol o Reoliadau i gymryd i ystyriaeth dir llygredig ymbelydrol.

1.1.2 Cyhoeddwyd yr arweiniad diweddaraf yn 2012 ar gyfer tir llygredig nad yw'n ymbelydrol, sef "Dogfen Arweiniad Llywodraeth Cymru. Arweiniad Statudol Tir Llygredig – 2012", y cyfeirir ati wedi hyn fel yr "Arweniad". Dim ond ar ffurf drafft mae'r arweiniad sydd i gael ei fabwysiadu ar gyfer tir llygredig ymbelydrol hyd yn hyn.

1.1.3 Prif amcan y drefn newydd yw darparu system ar gyfer canfod ac adfer safleoedd lle mae llygru yn achosi peryglon annerbyniol i iechyd dynol a/neu'r amgylchedd ehangach. Dylid asesu hyn yn ôl defnydd presennol ac amgylchiadau'r tir ac ar sail asesu peryglon i iechyd dynol a'r amgylchedd, er mwyn dilyn dull "addas i'w ddefnyddio" y Llywodraeth.

1.1.4 Mae'r Rheoliadau yn rhoi sylw i faterion llygru hanesyddol yn unig. Nid yw Rhan 2A wedi ei bwriadu i'w defnyddio ar gyfer:

- ❑ niwed sydd ar ddiwydd ac adferiad y niwed drwy weithrediad cyfredol, dan reolaeth Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009;
- ❑ problemau llygru y bydd modd eu penderfynu gyda phwerau presennol o dan drefnau eraill, er enghraifft, trwy orfodi trefn rheoli gwastraff; ac
- ❑ achosion lle mae ymchwiliad ac adferiad y safle drwy system ddeddfwriaethol megis deddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu. Yn yr achosion hyn, dylai'r awdurdod cynllunio fodloni ei hun fod posibilrwydd o lygru yn cael ei asesu'n briodol a bod y datblygiad yn ymgorffori unrhyw fesurau adfer angenrheidiol.

1.1.5 Mae'r drefn yn ymdrin ag asesiad tir llygredig ymbelydrol ac nad yw'n ymbelydrol ar wahân. O fis Ebrill 2013, bydd awdurdodau lleol yn dal i fod yn gyfrifol am sefydlu sail i asesu safleoedd a allai fod yn agored i lygredd ymbelydrol. Fodd bynnag, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) (sef Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt) yn dod yn gorff rheoliadol ar gyfer tir llygredig ymbelydrol, os bydd y tir yma wedi'i ddynodi'n dir llygredig oherwydd halogyddion ymbelydrol.

1.1.6 Mae'r Strategaeth Tir Llygredig (y byddwn yn ei galw 'y Strategaeth') yn esbonio sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y cyfeirir ato wedi hyn yn 'CBS Wrecsam') yn archwilio'r tir o fewn y Fwrdeistref Sirol er mwyn canfod unrhyw dir llygredig. Bydd hefyd yn disgrifio'r trefnau sy'n cael eu defnyddio i asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r tir a'r trefnau wedi hyn i ymdrin â'r risgiau hynny. Mae'n adolygiad o'r Strategaeth wreiddiol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2002. Mae'r adolygiad yma'n cyfeirio at arweiniad a deddfwriaeth a ddiweddarwyd a'r gwaith a weithredwyd o dan Ran 2A hyd yn hyn.

1.1.7 Mae'r Strategaeth Archwilio'n ymwneud yn benodol ag asesiad tir llygredig nad yw'n ymbelydrol. Mae'r drefn tir llygredig ymbelydrol yn ymwneud yn unig â llygriad sydd wedi codi o sgil-ffeithiau argyfwng ymbelydrol neu arfer yn y gorffennol neu weithgareddad yn y gorffennol. Nid oes gan CBS Wrecsam wybodaeth berthnasol yn ymwneud ag esiamplau o hyn. Nid yw'r drefn yn berthnasol i arferion cyfredol ac ymbelydredd cefndir naturiol.

1.2 Diffinio Tir Llygredig

1.2.1 Mae Adran 78A(2) o Ran 2A yn diffinio tir llygredig fel:
"unrhyw dir sy'n ymddangos i'r awdurdod lleol sydd â'r tir yn ei ardal i fod yn y fath gyflwr, oherwydd sylweddau yn, ar neu o dan y tir, fel bod –

- (a) niwed sylweddol yn cael ei achosi neu fod posibilrwydd sylweddol y bydd niwed o'r fath yn cael ei achosi; neu
- (b) bod llygru sylweddol o'r dyfroedd yn cael ei achosi neu bod posibilrwydd arwyddocaol y gallai llygredd o'r fath gael ei achosi;..."]

1.2.2 Mae'r Arweiniad yn nodi'r trefnau sydd i gael eu gweithredu er mwyn diffinio "arwyddocaol" a'r "posibilrwydd y gallai niwed arwyddocaol gael ei achosi" a bod "posibilrwydd arwyddocaol y gallai llygredd o ddyfroedd dan reolaeth.....gael ei achosi".

1.2.3 **NID YW** tir llygredig:

- i gael ei ddsbarthu fel tir llygredig yn ôl unrhyw ddiffiniad heblaw'r rhai sy'n cael eu disgrifio o dan Ran 2A; neu
- yn dir gyda llygredd arno, ynddo neu oddi tano, sy'n gallu peri niwed sylweddol neu lygru dyfroedd rheoledig ond sydd heb fod â llwybr a derbynnnydd hefyd.

1.3 Egwyddorion Asesu Perygl

1.3.1 Bydd tir llygredig yn cael ei ddynodi ar sail asesu perygl. Mae'r Cyfarwyddyd yn diffinio "perygl" fel cyfuniad o'r canlynol:

- "(a) y tebygolrwydd y bydd niwed neu lygriad dŵr, yn digwydd o ganlyniad i ddifwynwyr o fewn, ar neu o dan y tir; a
- (b) maint a difrifoldeb niwed neu lygredd o'r fath os byddai'n digwydd."

1.3.2 Mae'r cysyniad o 'ddifwynwr (ffynhonnell) ⇒ llwybr ⇒ derbynnnydd' yn ffurfio'r sail ar gyfer yr asesiad risg yma.

1.4 Egwyddorion Cysylltiad Llygrol (Ffynhonnell ⇒ Llwybr ⇒ Derbynnnydd)

1.4.1 Mae 'cysylltiad llygrol' yn golygu'r berthynas rhwng difwynwr¹, llwybr² a derbynnnydd³ - y 'llygrwr' yw'r difwynwr. Oni bai fod pob un o dair elfen cysylltiad llygrol yn cael eu canfod mewn darn o dir, ni fydd y tir hwnnw yn cael ei ddynodi fel 'Tir Llygredig'. Mae modd i fwy nag un cysylltiad llygrol fodoli ar unrhyw ddarn arbennig o dir.

1.4.2 O'i roi'n syml, cyn y gall perygl (ffynhonnell llygredd) beryglu derbynnnydd (e.e. amgylchedd dynol neu sensitif), rhaid fod modd (llwybr) i'r derbynnnydd ddod i gysylltiad â'r llygredd. Os nad oes llwybr, gall y llygredd fod yn berygl ond heb beryglu ac nid oes angen unrhyw adfer.

1.5 A yw'r Niwed Sylweddol neu'r Posibilrwydd o Niwed Sylweddol yn Arwyddocaol

1.5.1 Dylid canfod a oes niwed sylweddol, mewn perthynas ag iechyd dynol, pan fo'r niwed yn cael ei achosi ac yn uniongyrchol berthnasol i effeithiau difwynwyr mewn, ar neu o dan y tir ar y derbynnnyddion perthnasol (gwelwch yr esiamplau yn Atodiad I).

1.5.2 Er mwyn i CBS Wrecsam benderfynu a oes "posibilrwydd arwyddocaol o achosi niwed sylweddol", mae'n rhaid i CBS Wrecsam werthuso lefelau ansicrwydd y cysylltiadau llygrol perthnasol ac a oes "posibilrwydd o achosi niwed sylweddol".

¹ Difwynwr yw sylwedd sydd yn, ar neu o dan y tir a sydd â'r gallu i beri niwed neu i lygru dyfroedd rheoledig.

² Llwybr yw un neu fwy o wahanol ffyrdd y gall (neu y gallai) derbynnnydd fod yn agored i neu gael ei effeithio gan ddifwynwr.

³ Derbynnnydd yw cael, neu allu cael, niwed trwy ddifwynwr, neu ddyfroedd rheoledig sydd, neu allai fod, yn cael eu llygru gan ddifwynwr. Mae Rhan 2A yn cyfyngu ar y mathau o dderbynnnydd i'r rhai sy'n cael eu rhestru yn Atodiad I.

1.5.3 Bydd y term “posibilrwydd o achosi niwed sylweddol” yn berthnasol pan fo un neu fwy o gysylltiadau llygrol ac y mae wedi’i seilio ar:

- a) ba mor debygol yw hi y gallai niwed sylweddol ddigwydd i dderbynnwyd a bennwyd, gan ystyried y defnydd presennol⁴ o’r tir perthnasol; ac
- b) yr effaith a amcangyfrifir pe bai’r niwed sylweddol yn digwydd – h.y. natur y niwed, pa mor ddifrifol fyddai i unrhyw un allai ei ddioddef, a (lle bo’n berthnasol) maint y niwed yn nhermau faint o bobl allai ei ddioddef.

1.5.4 Wrth benderfynu a yw’r posibilrwydd o niwed sylweddol yn arwyddocaol, mae’n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam benderfynu a yw’r posibilrwydd o niwed sylweddol a greir gan lygriad o fewn, ar neu o dan y tir yn ddigon mawr nes y dylid cymryd camau rheoli i’w ostwng, gan ystyried amcanion y system (gwelwch baragraffau 1.1.3 a 1.1.4) ac a yw mesurau adfer, er enghraifft, yn rhesymol, ymarferol, cadarn, effeithiol ac yn cael effaith gyfyngedig ar iechyd dynol ac ar yr amgylchedd.

1.5.5 Mae’r Cyfarwyddyd yn darparu pedwar categori i helpu i sefydlu achosion niwed sylweddol a’r posibilrwydd arwyddocaol o niwed sylweddol yn benodol i iechyd dynol, sef categorïau 1 a 2 yn y drefn honno, mae’r rhain yn cynnwys tir y gellir ei enwi’n dir halogedig ar y seiliau hyn. Byddai categorïau 3 a 4 yn cynnwys tir na ellir ei bennu ar seiliau o’r fath (gwelwch y manylion ym mharagraffau 4.19 hyd 4.29 yn y Cyfarwyddyd).

1.5.6 Wrth asesu niwed sylweddol i dderbynyddion nad ydynt yn ddynol, bydd CBS Wrecsam yn ystyried y derbynyddion a’r mathau o niwed sydd wedi’u diffinio yn y tabl yn Atodiad I yn unig. I asesu posibilrwydd arwyddocaol o niwed sylweddol i dderbynyddion nad ydynt yn ddynol, bydd CBS Wrecsam yn cymryd i ystyriaeth yr amodau sydd wedi’u disgrifio yn Atodiad II, Tabl A. Os mai ecosystemau yw’r derbynnwyd, bydd CBS Wrecsam yn ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y dull asesu a chanfyddiadau’r asesiad.

1.6 Llygriad Sylweddol mewn Dŵr a Reolir neu Bosibilrwydd Arwyddocaol o Hynny

1.6.1 Ni fyddai CBS Wrecsam ond yn dod i’r casgliad bod llygriad⁵ dyfroedd a reolir⁶ yn sylweddol os yw’n ystyried bod trin y tir fel tir llygredig yn cyfateb ag amcanion y system (gwelwch baragraffau 1.1.3 a 1.1.4). Bydd CBS Wrecsam yn ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru wrth asesu achosion o’r fath.

1.6.2 Wrth asesu a yw llygriad sylweddol ar ddyfroedd a reolir yn cael ei achosi, bydd angen i CBS Wrecsam deimlo’n fodlon bod y llygriad yn parhau i fynd i ddyfroedd a reolir neu ei fod wedi mynd i mewn i’r dyfroedd yn barod ac yn debygol o wneud hynny eto i’r fath fodd nes bod ei fynediad yn y gorffennol a’i fynediad tebygol yn y dyfodol yn cyfateb i bob pwrpas â llygriad parhaus. Mae manylion yn Atodiad I o’r mathau o lygriad y gellid eu hystyried yn sylweddol.

1.6.3 Mae’r term “posibilrwydd o lygriad sylweddol dyfroedd a reolir” yn golygu’r tebygolrwydd a amcangyfrifir y gallai llygriad sylweddol ddigwydd mewn dyfroedd a reolir, o

⁴ Yn unol â’r Cyfarwyddyd, y “defnydd presennol” yw:

(a) Unrhyw ddefnydd o’r tir sy’n digwydd ar hyn o bryd. (b) Defnydd o’r tir sy’n rhesymol debygol o ddigwydd yn y dyfodol na fyddai’n gofyn rhoi caniatâd cynllunio newydd neu ddiwygiedig iddo. (c) Unrhyw ddefnydd dros dro a wneir o’r tir, neu sy’n debygol o ddigwydd i’r tir, o bryd i’w gilydd o fewn ffiniau’r caniatâd cynllunio cyfredol. (d) Y defnydd anffurfiol tebygol a wneir o’r tir, er enghraifft plant yn chwarae ar y tir, a ydyw wedi’i awdurdodi gan y perchnogion neu’r deiliaid neu beidio. (e) Yn achos y tir amaethyddol, ni ddylid tybied bod y defnydd amaethyddol cyfredol yn ymestyn y tu hwnt i dyfu neu fagu cnydau neu anifeiliaid a dyfir neu a fegir yn arferol ar y tir

⁵ O dan adran 78A(9) Rhan 2A mae’r term “llygru dyfroedd a reolir” yn golygu deunydd gwastraff solid neu ddeunydd llygredig, niweidiol neu wenwynig yn mynd i mewn i ddyfroedd a reolir.

⁶ Mae’r term “dyfroedd a reolir” mewn perthynas â Chymru’n golygu yr un peth ag ydyw yn Rhan 3 Deddf Adnoddau Dŵr 1991, heblaw nad yw “dŵr daear” yn cynnwys dyfroedd sydd wedi’u cynnwys mewn strata tanddaearol, dim ond hwnnw sy’n uwch na’r lefel dirlawnder.

ystyried yr ystyriaethau a ddisgrifir yn Atodiad II, Tabl B. O ran asesu niwed i iechyd dynol, mae'r cyfarwyddyd yn darparu pedwar categori i helpu i sefydlu seiliau ar gyfer llygriad sylweddol dyfroedd a reolir a'r posibilrwydd arwyddocaol y gellir llygru dyfroedd a reolir yn sylweddol (fel sydd wedi'u disgrifio ym mharagraff 4.46 y Cyfarwyddyd).

1.7 Adfer

1.7.1 Yn gyffredinol mae'r cyfrifoldeb dros dalu am adfer yn dilyn yr egwyddor 'y llygrwr i dalu'. Yn y lle cyntaf, y rhai a achosodd neu a oddefodd yn fwriadol i'r sylwedd(au) llygrol fod yn, ar neu o dan y tir fydd y 'person(au) priodol' i wneud y gwaith adfer a thalu amdano (person(au) Dosbarth A).

1.7.2 Fodd bynnag, os nad oes modd dod o hyd i unrhyw berson o'r fath, bydd cyfrifoldeb fel arfer yn trosglwyddo i berchennog neu ddeiliad presennol y tir (person(au) Dosbarth B). Nid yw'r cam olaf hwn yn berthnasol lle mae'r broblem a achoswyd yn un o lygru dŵr yn unig. Yn unol â Rhan 2A a'r Cyfarwyddyd, bydd cyfyngiadau ar gyfrifoldeb.

1.8 Gofynion am Agwedd Strategol

1.8.1 Bu'r dull o ddatblygu'r Strategaeth yn unol â pharagraffau 2.3 – 2.6 o'r Cyfarwyddyd, gyda'r prif egwyddorion sylfaenol canlynol:

- bod yn rhesymegol, yn drefnus ac yn effeithlon;
- bod yn gymesur â difrifoldeb unrhyw wir berygl neu berygl tebygol;
- ceisio sicrhau bod y problemau mwyaf enbyd a difrifol yn cael eu canfod gyntaf;
- sicrhau bod adnoddau yn cael eu canolbwyntio ar archwilio mewn ardaloedd lle mae'r awdurdod fwyaf tebygol o ganfod tir llygredig; a
- sicrhau bod yr awdurdod yn effeithlon o ran dangos yr angen i archwilio darnau arbennig o dir yn fanwl.

1.8.2 Yn ôl gofynion paragraff 2.6(a) o'r Cyfarwyddyd, mae'r Strategaeth yn adlewyrchu amgylchiadau lleol, yn arbennig:

- unrhyw dystiolaeth sydd ar gael bod niwed neu lygru sylweddol o ddyfroedd rheoledig yn cael ei achosi mewn gwirionedd;
- i ba raddau mae unrhyw dderbynydd (yn unol â'r Rheoliadau) yn debygol o gael ei ddarganfod mewn unrhyw ran o CBS Wreccsam;
- i ba raddau mae unrhyw rai o'r derbynyddion hynny yn debygol o fod yn agored i ddifwynwr (ar sail y diffiniad ym Mhennod 1 o'r Cyfarwyddyd);
- i ba raddau mae gwybodaeth am lygru tir eisoes ar gael;
- hanes, graddfa a natur gweithgareddau diwydiannol neu weithgaredd arall all fod wedi llygru'r tir mewn gwahanol rannau o CBS Wreccsam;
- natur ac amseriad ailddatblygu yn y gorffennol mewn gwahanol rannau o'i ardal;
- i ba raddau y cymrodd CBS Wreccsam neu eraill gamau adfer eisoes i drin problemau llygru tir neu gamau sy'n debygol o gael eu cymryd fel rhan o ailddatblygu'n fuan; ac
- i ba raddau mae awdurdodau rheoleiddio eraill yn debygol o fod yn ystyried posibilrwydd achosi niwed i dderbynyddion arbennig neu'r tebygolrwydd o lygru unrhyw ddyfroedd rheoledig mewn rhannau arbennig o'r Fwrdeistref Sirol.

1.9 Y Gofrestr Gyhoeddus

1.9.1 Yn unol ag Adran 78R(1) o Ran 2A, bydd CBS Wreccsam yn cadw Cofrestr yn cynnwys y manylion sy'n cael eu rhestru yn Atodiad III (gwelwch hefyd Adran 8.2 i weld hygyrchedd at y Gofrestr).

1.9.2 Ni fydd y Gofrestr Gyhoeddus yn cynnwys manylion o ddefnydd tir hanesyddol na chofnodion eraill gaiff eu defnyddio i ymchwilio tir allai fod yn llygredig gan mai dogfennau ymchwil yn unig yw'r rhain.

1.10 Swyddogaeth Reoleiddiol Cynghorau o dan Ran IIA

1.10.1 O dan Ran 2A mae'r brif swyddogaeth reoleiddiol yn aros gyda'r Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ac mae fel a ganlyn:

- ❑ i archwilio eu hardal er mwyn canfod tir llygredig;
- ❑ i benderfynu pwy yw'r person neu bersonau priodol i gymryd cyfrifoldeb dros adfer y tir (gyda chymorth Cyfoeth Naturiol Cymru yn achos Safleoedd Arbennig);
- ❑ i benderfynu pa waith adfer sydd ei angen (gyda chymorth Cyfoeth Naturiol Cymru yn achos Safleoedd Arbennig) yn unrhyw achos unigol a sicrhau bod gwaith adfer o'r fath yn digwydd, un ai trwy gytundeb gyda'r rhai sy'n gyfrifol neu, lle bo angen, ac ar ôl ymgynghori, trwy gyflwyno Rhybudd Adfer neu, o dan rai amgylchiadau, trwy wneud y gwaith eu hunain; ac
- ❑ i gofnodi gwybodaeth ynghylch eu gweithrediadau rheoleiddiol mewn Cofrestr Gyhoeddus.

1.11 Swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Ran 2A

1.11.1 Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru bedair prif swyddogaeth o dan Ran 2A fel a ganlyn:

- ❑ i gynorthwyo awdurdodau lleol gyda chanfod tir llygredig, yn arbennig mewn achosion lle mae llygru dŵr dan sylw;
- ❑ i ddarparu cyfarwyddyd penodol i safle ar adfer tir llygredig ar gyfer awdurdodau lleol;
- ❑ i weithredu fel yr awdurdod gorfodi o ran unrhyw 'Safle Arbennig' (yn ôl Rheoliadau 2 a 3 ac Atodlen 1 Rheoliadau Tir Halogedig [Cymru]); ac
- ❑ i gyhoeddi adroddiadau cyfnodol ar dir llygredig.

1.12 Polisiâu Cyffredinol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

1.12.1 Wrth baratoi'r Strategaeth hon, mae CBS Wrecsam wedi sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i bolisiâu cyffredol yn ôl y canlynol:

- ❑ "Strategaeth Caffael CBS Wrecsam 1^{af} Awst 2009 – 31^{ain} Gorffennaf 2012"
- ❑ "Cynllun y Cyngor 2012-2016"
- ❑ "Cynllun Datblygiad Unedol Wrecsam 1996-2011 (Mabwysiadwyd 2005)"
- ❑ "Canllaw Cynllunio Lleol Nodyn 23 – Datblygu Safleoedd gyda Tir Halogedig" CBS Wrecsam.

Yn ogystal, mae "Cynllun Datblygiad Lleol CBS Wrecsam, Cyfrol 1, Ionawr 2013" wrthi'n cael ei baratoi a bydd hwn yn disodli'r Cynllun Datblygiad Unedol, ac mae wedi'i anfon allan ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd.

1.12.2 Mae strategaeth y Cynllun Datblygiad Unedol yn cydnabod:

"Nad yw estyniadau anheddau ar raddfa fawr a ddigwyddodd yn y gorffennol yn briodol bellach. Felly mae'r strategaeth yn ceisio diogelu amwynder anheddau a sicrhau economi ac effeithiolrwydd yn y defnydd a wneir o adnoddau tir drwy adfywio ardaloedd adeiledig ynghyd â thyfiant cyfyngedig tuag allan." Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn ei bolisiâu a nodwyd ym mharagraff 4.6.2.

1.12.3 Mae Polisi Gorfodaeth Adran Diogelu'r Cyhoedd a Thai yn nodi yr hyn y gall busnes ac eraill sy'n cael eu rheoli ei ddisgwyl gan Swyddogion Gorfodaeth ac mae'n ymrwymo'r Adran i bolisiâu a gweithdrefnau gorfodaeth da. Bydd unrhyw weithgarwch gorfodaeth a wneir o dan y Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) priodol yn cyfateb â'r Polisi Gorfodaeth.

1.12.4 Mae gan adferiad y tir llygredig o dan y Rheoliadau Tir Llygredig (Cymru) rôl sylweddol mewn cyfrannu at gyflawni polisiâu penodol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a bennwyd yn yr adran hon.

1.13 Polisiâu Cyrff Eraill Perthnasol i Dir Llygredig

1.13.1 Mae Asiantaeth yr Amgylchedd (sef Cyfoeth Naturiol Cymru yn awr) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) wedi paratoi'r Protocol ar Lygru Tir sy'n rhoi manylion swyddogaethau a chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol mewn perthynas â Rhan 2A; yn cynnwys pa fathau o wybodaeth sy'n cael ei dal gan y naill a'r llall a sut y caiff yr wybodaeth hon ei rhannu.

1.13.2 Mae Cynllun Rheoli Basn Afon Asiantaeth yr Amgylchedd, Rhanbarth Basn yr Afon Dyfrdwy, dyddiedig Rhagfyr 2009, yn cyfeirio at weithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff eraill yn rhan o'i gamau gweithredu i wella'r amgylchedd dŵr erbyn 2015. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda diwydiant, yr ymchwiliadau ar gyfer y Strategaeth Cloddfa Metel i Gymru a chydymffurfio â'r rhybuddion adferiad.

1.14 Datblygu'r Strategaeth

1.14.1 Ysgrifennwyd y Strategaeth yn unol â'r dogfennau a ganlyn:

- Rheoliadau Tir Llygredig (Cymru), 2006;
- Rheoliadau Tir Llygredig (Cymru) (Diwygiad), 2012
- Arweiniad Statudol Tir Llygredig Llywodraeth Cymru – 2012; ac
- Arweiniad Statudol Tir Llygredig Ymbelydrol Llywodraeth Cymru – fersiwn Drafft 2012.

1.14.2 Mae'r Cyfarwyddyd yn gofyn bod y Strategaeth yn cael ei hadolygu'n gyfnodol i sicrhau ei bod yn parhau'n gyfddyddiol ac wedi'i hysgrifennu yn unol â'r arweiniad cyfredol.

1.15 Rheolaeth Fewnol y Gyfundrefn

1.15.1 Mae'r tîm Amddiffyn yr Amgylchedd yn Adran Tai ac Amddiffyn y Cyhoedd yn CBS Wrecsam yn gyfrifol am weithredu Rhan 2A. Mae tîm o Swyddogion Tir Llygredig yn arwain gweithrediadau tir llygredig, gan adrodd i'r Prif Reolwr dros Amddiffyn yr Amgylchedd a Gorfodaeth a'r Rheolwr Gwasanaeth Amddiffyn y Cyhoedd.

1.15.2 Mae Swyddogion Tir Llygredig yn bobl sydd â'r profiad addas ac sydd â phrofiad o astudiaethau desg tir llygredig, ymchwiliadau safle ymwithiol a gwaith adferol.

1.15.3 Lle mae eu profiad yn gallu bod yn brin mewn disgyblaeth arbennig, ceisir cyngor gan rywun sydd â'r cymwysterau addas.

1.15.4 Ar amser cynhyrchu'r Strategaeth wreiddiol, argymhellodd Adran yr Amgylchedd, Cludiant a Rhanbarthau ac Asiantaeth yr Amgylchedd y gallai'r Cynghorau ystyried datblygiad y Strategaeth fel prosiect sy'n gofyn rheolwr prosiect a thîm prosiect. O ganlyniad, galwyd y Gweithgor Tir Llygredig Mewnol at ei gilydd i sicrhau bod CBS Wrecsam yn mabwysiadu dull cydlynol. Mae CBS Wrecsam yn adolygu'r cysylltiadau ymo o bryd i'w gilydd i sicrhau cynnal dull o'r fath. Mae'r cysylltiadau wedi'u rhestru yn Atodiad IV.

1.16 Cyswllt Allanol

1.16.1 Bu cyswllt gyda sefydliadau allanol (a restrir yn Atodiad V) ers cyfnod cynnar.

1.16.2 Mae CBS Wrecsam yn cyfranogi'n weithgar yng Ngweithgor Llygru Tir Cymru sy'n cynnwys cyrrff rheoli (awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru) y gyfundrefn tir llygredig a chyfraniad gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd y Grŵp i sicrhau gweithrediad esmwyth ac effeithiol y gyfundrefn yng Nghymru ond mae ei fuddiannau'n ymestyn i bob maes o reoli llygredd tir yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- ymgynghoriadau ynghylch unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu arweiniad, cyllid, adnoddau a mentrau hyfforddiant ar y cyd;
- ffocws ar gyfnewid gwybodaeth yn ymwneud â phennu ac adfer llygriad tir drwy'r broses gynllunio neu'r gyfundrefn tir llygredig;
- darparu cyngor ac arweiniad ar gysondeb ac arfer gorau i gyrrff rheoli llygriad tir drwy Gymru gyfan; a

- ❑ cheisio datrys problemau o bwysigrwydd strategol neu eang, neu ddod â nhw i sylw cyrff mwy priodol megis Llywodraeth Cymru.

2 NODAU, AMCANION A BLAENORIAETHAU'R STRATEGAETH

2.1 Nodau ac Amcanion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

2.1.1 Mae CBS Wrecsam wedi pennu ei nodau, amcanion a blaenoriaethau ar gyfer archwilio, gan ystyried polisiâu cyfredol ac amodau ac amgylchiadau lleol.

2.1.2 Nod CBS Wrecsam yw sicrhau fod Rhan 2A yn cael ei gweithredu a bod hyn yn digwydd ochr yn ochr â pholisiâu CBS Wrecsam sydd wedi'u nodi yN Adran 1.12.

2.1.3 Yr amcanion i gyrraedd nod CBS Wrecsam felly fydd:

- ateb gofyniad Rhan 2A i gynnal a diweddarau Strategaeth Archwilio ar gyfer tir llygredig;
- canfod ffynonellau llygredig sy'n debygol o achosi peryglon annerbyniol (niwed sylweddol) i iechyd dynol a'r amgylchedd;
- canfod derbynyddion tebygol all deimlo effaith y llygru tebygol a ddynodwyd;
- gweld a oes unrhyw lwybrau'n bodoli o'r ffynhonnell i'r derbynydd neu dderbynyddion (h.y. cysylltiad llygrol); ac
- blaenoriaethu'r safleoedd hynny a ddynodwyd fel rhai gyda chysylltiad llygrol tebygol a sicrhau bod asesiad pellach yn cael ei gynnal, gan wneud gwaith adfer i safon dderbyniol lle bo angen.

2.2 Nodau ac Amcanion y Strategaeth

2.2.1 Nod y Strategaeth yw sicrhau bod tir llygredig presennol yn cael ei ganfod a, lle bo angen, bod gwaith yn cael ei wneud i reoli peryglon annerbyniol yn nhrefn blaenoriaeth.

2.2.2 Yr amcanion i gyrraedd nod y Strategaeth fydd:

- sicrhau bod pawb sy'n teimlo effaith, ac yn ymwneud â, y broses archwilio (h.y. canfod holl dir llygredig yn y Fwrdeistref Sirol) wedi deall yn glir sail resymegol yr archwilio, sut y caiff hyn ei wneud ac yn ôl ba amserlen;
- dilyn a chadw at ofynion y Cyfarwyddyd, a pharagraffau 2.3 i 2.15 yn benodol;
- cynnwys trefnau ar gyfer hysbysu holl fudd-ddeiliaid bwriadau CBS Wrecsam; a
- rhoi gwybodaeth i Gyfoeth Naturiol Cymru ar dir llygredig yn y Fwrdeistref Sirol ar gyfer ei adroddiad ar dir llygredig.

2.3 Blaenoriaethu Safleoedd a Chamau Cyntaf

2.3.1 Yn ôl gofynion y Cyfarwyddyd, ystyriwyd amgylchiadau arbennig a nodweddion y Fwrdeistref Sirol pan yn penderfynu sut fydd safleoedd allai fod yn llygredig yn cael eu blaenoriaethu. Felly, er bod CBS Wrecsam yn cydnabod fod yr holl dderbynyddion tebygol yn bwysig, mae wedi penderfynu y bydd y blaenoriaethau o ran asesu tir allai fod yn llygredig fel a ganlyn (y pwysicaf sydd gyntaf):

- Pobl / Eiddo;
- Dyfroedd arwyneb;
- Dŵr codi; ac
- Anifeiliaid a phlanhigion.

2.3.2 Mae trefn blaenoriaeth yn seiliedig ar yr wybodaeth yn Adran 4 ac, yn gryno, mae fel a ganlyn:

- mae poblogaeth fawr yn y Fwrdeistref Sirol gyda ffiniau cymharol ddiffiniedig i'r ardaloedd adeiledig;
- mae'r Ddyfrdwy, sydd â llawer o afonydd yn llifo iddi yn y Fwrdeistref Sirol, yn ffynhonnell dŵr yfed; a
- mae llawer o'r cynefinoedd bywyd gwyllt gwarchoddedig yng nghefn gwlad draw o'r ardaloedd oedd yn hysbys am ddiwydiant yn hanesyddol (a llygru tebygol felly).

3 AMSERLENNI'R STRATEGAETH A CHYLLID

3.1 Amserlenni Cyfundrefn Rhan 2A

3.1.1 Mae'r Rheoliadau'n gofyn ysgrifennu a mabwysiadu Strategaeth Archwilio o fewn 15 mis wedi i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Cymeradwyodd a mabwysiadodd Bwrdd Gweithredol CBS Wrecsam y Strategaeth i'w chyhoeddi ym mis Medi 2002.

3.1.2 Roedd y Strategaeth wreiddiol yn rhestru targedau i gwblhau tasgau penodol. Nid yw'r adolygiad yma wedi nodi unrhyw dargedau. Mae profiad wedi dangos nad yw hyn yn angenrheidiol a'i fod yn anymarferol yn y pen draw am fod hyd a chost asesiadau Rhan 2A yn amrywiol iawn. Ers cyflwyno Rhan 2A mae hefyd wedi dod i'r amlwg bod nifer sylweddol o safleoedd wedi'u hasesu drwy'r Gyfundern Gynllunio. Mae rheoli llygriad tir drwy'r gyfundrefn Rhan 2A a'r Gyfundrefn Gynllunio yn flaenoriaeth i CBS Wrecsam, a bydd cynnydd drwy'r ddwy gyfundrefn wedi'i gofnodi a'r manylion wedi'u crynhoi ar wefan CBS Wrecsam.

3.1.3 Bydd CBS Wrecsam yn adolygu'r Strategaeth o fewn amserlen briodol, y cyfeirir ati ym Adran 6.2.

3.2 Cyllid

3.2.1 Bydd cost pob archwiliad yn amrywio, gan ddibynnu ar nifer o elfennau fel maint y safle, natur a maint y llygru, y math o lwybr a'r derbynydd. CBS Wrecsam fydd yn dwyn holl gostau penderfynu ar ardaloedd o 'dir llygredig'. O gasglu bod y tir wedi ei ddynodi fel Tir Llygredig a gwybod pwy yw'r person(au) priodol, y cyfryw person(au) fydd yn dwyn y costau adfer. Yn achos Safleoedd Arbennig, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dwyn rhai costau, er bod rhaid nodi y gall faint o arian sydd ar gael gyfyngu ar eu gweithrediadau.

3.2.2 Fel perchennog tir, mae CBS Wrecsam yn gyfrifol am ei dir a'i safleoedd amddifad ei hun (gwelwch Adran 5.7) ac, fel y cyfryw, mae o ganlyniad wedi gwneud darpariaeth ychwanegol yn ei wariant blynyddol ar gyfer ymchwilio safleoedd allai fod yn llygredig. Ystyriwyd costau cysylltiedig â chyhoeddi'r Strategaeth Archwilio, archwiliadau trwy astudiaeth ddesg, gwaith ymchwilio safle ymwithiol dechreuol ac adfer tir os mai CBS Wrecsam yw'r person priodol. Nid oes modd mesur swm llawn y gwariant fydd ei angen na rhoi amserlen bendant ar gyfer cwblhau'r broses gyfan o ganfod ac adfer.

3.2.3 Bydd cynnydd yn digwydd yn raddol ac yn dibynnu ar gyfyngiadau ar adnoddau ariannol blynyddol. Bydd cyllid yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gan y bydd y safleoedd yn cael eu dosbarthu yn ôl eu perygl tebygol, bydd y safleoedd uchaf eu perygl yn cael eu hymchwilio fel blaenoriaeth.

3.2.4 Sefydlwyd y Rhaglen Cyllido Cyfalaf Tir Llygredig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru erbyn hyn) i sicrhau bod cyllid ar gael i awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru rhwng 2005/2006 a 2011/2012. Gallai Awdurdodau Lleol wneud cais am gyllid i dalu cost ymchwiliadau safle ymwithiol Rhan 2A a gwaith adfer. Aeth y Llywodraeth ati i asesu prosiectau arfaethedig ar sail teilyngdod technegol a gwerth am arian, a blaenoriaethu'r bidiau os bydd y rhaglen wedi'i gor-danysgrifio. Mae'r rhaglen yn parhau wedi'i gohirio.

3.2.5 Mae Rhaglen Adfer Tir Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) ar gael i'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Amcan y Rhaglen oedd sicrhau ailddefnyddio tir diffaith yn fuddiol trwy adfer (h.y. adfer a/neu newid defnydd). Diffiniwyd tir diffaith fel 'tir a niweidiwyd gymaint trwy weithgaredd diwydiannol neu waith arall yn y gorffennol fel nad oes modd ei ddefnyddio'n fuddiol heb driniaeth'. Chwalwyd y WDA yn 2006 a chafodd ei amsugno i mewn i Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllido ar gyfer safleoedd diffaith wedi dod yn fwy dethol ac yn aml iawn caiff ei ddarparu mewn cydweithrediad a chyd-gyllido gan, er enghraifft, Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.


4 NODWEDDION BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

4.1 Lleoliad Daeryddol

4.1.1 Mae Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn sefyll yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Gyda Bryniau Clwyd i'r gorllewin a chefn gwlad fryniog Swydd Amwythig a Phowys i'r de, mae'r Fwrdeistref Sirol yn ymestyn tua'r gogledd a thua'r dwyrain i'r ffin â Lloegr. Mae Ffigur 1 yn dangos lleoliad rhanbarthol y Fwrdeistref Sirol.

4.1.2 Yn ffinio â'r Fwrdeistref Sirol mae awdurdodau unedol Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Phowys yng Nghymru, ac awdurdodau unedol Gorllewin Sir Gaer a dinas Caer i'r dwyrain a gan Swydd Amwythig i'r de.

Ffigur 1 – Lleoliad Rhanbarthol y Fwrdeistref Sirol



Cynhyrchwyd gan yr Adran Gynllunio ar sail mapiau'r Arolwg Ordnans © hawliau cronfa ddata a hawlfraint y Goron 2011. Arolwg Ordnans 100023429. Nid oes caniatâd gennych i gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf. Nid yw ar raddfa.

4.2 Disgrifiad Cryno a Hanes Bwrdeistref Sirol Wrecsam

4.2.1 Tref Wrecsam ei hun yw prif ganolbwynt y Fwrdeistref Sirol a dyma'r ganolfan adwerthu fwyaf a mwyaf amrywiol yng Ngogledd Cymru. Mae'r dref hefyd yn gartref i'r ysbyty mwyaf yng Ngogledd Cymru a sefydliadau eraill o fri sy'n tyfu fel Coleg Iâl a Phrifysgol Glyndŵr.

4.2.2 Mae trefi a phentrefi'r Fwrdeistref Sirol yn sefyll mewn cefn gwlad ddeniadol gyda nifer o nodweddion hanesyddol.

4.3 Maint a Dosbarthiad Poblogaeth (Daeryddol)

4.3.1 Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys 50,000 hectar o dir ac o 2006, mae ganddi boblogaeth o oddeutu 133,600.

Tabl A – Y Boblogaeth mewn Ardaloedd Cymunedol yn 2006

Ward	Poblogaeth	Ward	Poblogaeth
Acton	3091	Little Acton	2239
Parc Borrass	2400	Llangollen Wledig	2087
Bronington	3409	Coed Llai	4934
Brymbo	3540	Maesdre	1998
Brynyffynon	3592	Marchwiell	2455
Bryn Cefn	2180	Marffordd a Hoseley	2411
Cartrefle	2261	Y Mwynglawdd	2420
Cefn	4964	Brychdyn Newydd	3567
Dyffryn Ceiriog	2401	Offa	2386
Gogledd y Waun	2464	Owrtyn	3336
De'r Waun	2070	Pant	2260
Coedpoeth	4493	Penycae	2243
Erddig	2199	Penycae a De Rhiwabon	2422
Esclusham	2769	Plas Madoc	1718
Garden Village	2075	Ponciau	4593
Dwyrain a Gorllewin Gresffordd	2802	Queensway	2494
Grosvenor	2459	Rhosnesni	2745
Gwenfro	1653		
Dwyrain a De Gwersyllt	4935	Yr Orsedd	3402
Gogledd Gwersyllt	2824	Rhiwabon	2926
Gorllewin Gwersyllt	2989	Smithfield	2504
Hermitage	2225	Stansty	2020
Holt	3834	Whitegate	3423
Johnstown	3219	Wynnstay	2128

Cyfanswm= 133,600

4.3.2 Mae Ffigur 2 yn dangos dosbarthiad yr ardaloedd hyn yn y Fwrdeistref Sirol.

Ffigur 2 – Ardaloedd Cymunedau yn y Fwrdeistref Sirol

© Hawliau cronfa ddata a hawlfraint y Goron 2011. Arolwg Ordians 100023429. Nid oes caniatâd gennych i gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf. Heb fod ar raddfa.

4.4 Nodweddion Defnydd Tir Presennol

4.4.1 Mae'r UDP a'r LDP drafft yn dangos yr ardaloedd canlynol fel rhai sydd o werth amgylcheddol arbennig o uchel.

4.4.2 Ardaloedd Tirwedd Arbennig – Mae'r rhain yn ddarnau o dirwedd o safon sy'n gallu cyfrannu at osodiad, mwynder, a chymeriad aneddiadau neu olygfeydd lleol ar hyd y prif lwybrau cyfathrebu neu sy'n cael eu hystyried o arwyddocâd tirwedd cenedlaethol. Mae enghreifftiau'n cynnwys tirweddau parcdir a gardd sy'n cael eu rhestru yng nghofrestr CADW o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig, lloriau pentref, mannau agored o fewn neu ar bwys ardaloedd adeiledig, dyffrynnoedd afonydd, a thir amaeth bryniog. Yn benodol, llethrau uchaf Cefn y Fedw, Dyffryn y Ffrith, rhannau o Ddyffryn Dyfrdwy a Dyffryn Ceiriog.

4.4.3 Mae Ardaloedd o Dirwedd Hanesyddol Gwerthfawr yn cynnwys: ystadau tai hanesyddol mewn parcdir yn bennaf yn cynnwys Stad Castell y Waun a Phlas Trefor; a grwn a rhych y Maelor Saesneg. Mae'r ddwy nodwedd olaf yma wedi'u rhestru yn y Gofrestr o Dirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru.

4.4.4 Safle Treftadaeth Byd UNESCO – Pennir y rhain yn safleoedd o werth eithriadol byd-eang. Mae gofyniad i roi'r lefel uchaf o amddiffyniad i'r mannau yma, sy'n golygu nid yn unig ofalu am y safleoedd eu hunain ond hefyd eu hardaloedd. Mae Dyrbont a Chamlas Pontcysyllte wedi'u dynodi'n Safle Treftadaeth Byd gyda pharth clustogi.

4.4.5 Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) – Mae Dyffryn Dyfrdwy, Mynydd Llantysilio a Rhiwabon a rhan o Fynyddoedd Gogleddol y Berwyn yn rhan o AHNE estynedig Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy erbyn hyn.

4.4.6 Tir Amaethyddol o Safon - mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys rhandiroedd mawr o dir amaethyddol o safon, wedi eu crynhoi yn bennaf o gwmpas Wrecsam, Gresffordd, Merffordd, Yr Orsedd, Burton, Holt ac ar hyd gorlifdir afon Dyfrdwy. Mae dros 70% o arwynebedd y Fwrdeistref Sirol yn dir amaethyddol.

4.5 Hanes Diwydiannol Presennol ac yn y Gorffennol

4.5.1 Trawsfurfiwyd y Fwrdeistref Sirol yn y 40 mlynedd diwethaf gyda dirywiad codi glo a diwydiannau trwm cysylltiedig, colledion swyddi aruthrol yn y sector gweithgynhyrchu yn y 1970au cynnar a dyfodiad sector gwasanaeth sy'n tyfu a diwydiannau ysgafn a thechnoleg uwch newydd yn eu lle. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn sefyll ar ran ogleddol Maes Glo 'Sir Ddinbych'. Mae etifeddiaeth o'r hen ddiwydiant glo (lefelydd pyllau, siafftau gadawedig, mynedfeydd, tomenni rwbel) a phyllau tywod a gro, carreg galch a phyllau clai brics segur. Dau sector sylweddol o'r economi lleol sy'n weddill yw amaethyddiaeth a'r diwydiant tynnu mwynau. Sail pennaf amaethyddiaeth yw cadw defaid ar y tir uchel yng ngorllewin y Fwrdeistref Sirol ac, ymhellach i'r dwyrain, mae ffermio llaeth a thir â'r fwy cyffredin ar y mariandir uwchlaw'r Haenau Glo a'r Permo-Trias.

4.5.2 Mae Stad Ddiwydiannol Wrecsam yn sefyll i'r dwyrain o dref Wrecsam ac mae Parc Technoleg Wrecsam yn sefyll i'r gorllewin. Yn wreiddiol roedd y rhan fwyaf o ardal Stad Ddiwydiannol Wrecsam yn sefydliad milwrol gyda gwaith uwchben ac o dan y tir. Dymchwelwyd rhai adeiladau a thirluniwyd yr ardal ar gyfer y defnydd diwydiannol presennol. O gwmpas y trefi llai a phentrefi eraill mae cylchoedd diwydiannol llai a mwy diweddar hefyd.

4.5.3 Yn ardal Wrecsam mae'r haenau glo yn rhedeg mewn strïbed o Riwabon yn y de cyn belled â Gwersyllt yn y gogledd a thua 10km o led ac yn y parth hwn yr oedd y rhan fwyaf o ddiwydiannau 'trwm' y gorffennol yn sefyll. I'r gogledd, gorllewin a de-orllewin o Wrecsam mae'r 'pentrefi trefol' sydd yn aneddiadau wedi eu seilio'n wreiddiol ar godi glo a diwydiannau cysylltiedig, fel Brymbo, Coed-poeth, Gwersyllt, Llai, New Broughton, Rhosllannerchrugog a Rhostyllen. Diflannodd y diwydiant ers llawer blwyddyn er i'r gwaith dur ym Mrymbo ddal i gynhyrchu hyd 1990. Ers cau Pwll Glo'r Bers yn 1987, bu codi glo yn gyfyngedig i safleoedd brig bach. Mae carreg haearn yn frith drwy'r cyfan o Ffuriant Llys Bedydd, a chafodd ei gweithio'n helaeth yn y 19^{eg} Ganrif mewn lefelydd fel Brymbo a'r Ponciau, yn gyffredinol ar y cyd â chodi glo.

4.5.4 Mae cofnod o godi glo yn y Canol Oesoedd yng Nghoed-poeth a Brymbo yn gynnar yn y 15^{fed} Ganrif. Digwyddodd codi cyfyngedig a bas ar hyd y 18^{fed} ganrif a'r 19^{eg} ganrif er mwyn diwallu anghenion y diwydiant haearn lleol yn arbennig. Fodd bynnag, ni ddechreuodd codi sylweddol nes i'r siafftau dwfn cyntaf gael eu hagor yn gynnar yn yr 20^{fed} ganrif. Ychydig o'r diwydiant sydd ar ôl erbyn hyn. O'r pyllau glo, mae adeiladau wedi goroesi yn y Bers, Plas Power, Wynnstay, a Llai. Dim ond un domen lo sydd wedi goroesi i unrhyw raddau, eto yn y Bers, tra bo gweddillion lefelydd bas a phyllau cloch yn eithaf cyffredin mewn rhai ardaloedd, gydag enghreifftiau rhestredig ger Melin y Nant yn Nyffryn Clywedog.

4.5.5 Bu cloddio helaeth am fwynau metellog, plwm a sinc yn bennaf, i'r de ac i'r gorllewin o'r Mwynglawdd. Fodd bynnag nid yw maint llawer o'r lefelydd yn hysbys, er bod rhyw 200 o siafftau a mynedfeydd y gwyddys amdanynt. Y cylch o gwmpas y Mwynglawdd oedd un o dair prif ardal gynhyrchu plwm Gogledd-ddwyrain Cymru. Mae tystiolaeth ddogfennol o fwyngloddio canoloesol yn y Mwynglawdd ac nid oes modd diystyru presenoldeb y Rhufeiniaid. Dechreuodd codi sylweddol tua chanol y 18^{fed} ganrif, yn gysylltiedig â datblygu gwell technolegau pwmpio, a chodwyd dros 50,000 tonn o fwyn i'r wyneb yn 1810. Rhwng 1845 a 1938 cynhyrchodd gogledd-ddwyrain Cymru gyfan rhyw 13% o gyfanswm cynnyrch plwm Prydain a 27% o sinc. Daeth dirywiad yn union cyn y Rhyfel Byd Cyntaf oherwydd mewnfurion rhad, gyda Chwmni'r Mwynglawdd yn mynd i'r gwellt yn 1914. Digwyddodd y

rhan fwyaf o gynhyrchu mwyn plwm galena rhwng 1855 a 1880. Roedd yr arian a dynnwyd o'r galena yn sgil gynnyrch gwerthfawr.

4.5.6 Mae gweddillion y diwydiant mwyngloddio yn cynnwys nifer o dai peiriant, gyda'r *City Engine House* wedi cadw orau, ac adeiladwaith pen pwll cysylltiedig, fel cylchoedd craen ceffyl; tomenni rwbel, a gweithfeydd prosesu, yn arbennig ger Brymbo. Awgrymwyd hefyd fod rhai gweddillion mwyngloddio canoloesol yn ôl pob tebyg i'w gweld ar ben gorllewinol cymhlethfa'r Mwynglawdd gyda sianelau tawelu dŵr wedi eu gweld yno. Yn ogystal, mae nifer o siafftau bas hysbys yn yr ucheldiroedd uwchben Dyffryn Clywedog gyda'u tomenni rwbel cysylltiedig.

4.5.7 Ni chloddwyd y mwyn sinc sffalerit yn sylweddol hyd 1865, a bu'r cynhyrchu mwyaf rhwng 1880 a 1895, gyda mwyngloddio'n darford i bob diben erbyn 1920.

4.5.8 Ni fu unrhyw dynnu carreg galed yn y Fwrdeistref Sirol ers 1993 pan beidiodd Chwarel y Mwynglawdd. Mae'r Mwynglawdd wedi chwarae rhan bwysig hefyd o ran tynnu carreg galch a chynhyrchu calch. Mae o'dyn Hoffman yn dyddio o 1868 yn dal i sefyll yn Chwarel y Mwynglawdd fel mae nifer o o'dynau eraill o faint diwydiannol.

4.5.9 Tynnu tywod a gro yw'r prif weithgaredd mwynol yn y Fwrdeistref Sirol gyda'r cynnyrch yn cyfrannu'n sylweddol at gyfanswm cynnyrch rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae adnoddau tywod a gro dros gylch eang, yn enwedig o gwmpas gogledd Wrecsam. Ar hyn o bryd mae tair chwarel weithredol: Borrass, Llai a Gresford.

4.5.10 Sbardunodd presenoldeb cleiau tân yn yr haenau glo ddiwydiant lleol o bwys yn ardal Rhiwabon yn cynhyrchu brics, teils a *terracotta*. Er i gynhyrchu brics ddechrau yn y 18^{fed} ganrif, y 19^{eg} ganrif welodd y datblygiad mawr gyda 2 brif gwmni, J.C. Edwards a Henry Dennis ar y blaen. Mae'r cwmni olaf yn dal i fod, fel mae o'dynau a phyllau tynnu clai cysylltiedig, lle mae Pridd Clai Rhiwabon yn cael ei gloddio i wneud teils.

4.5.11 Wrecsam, ynghyd â Sir y Fflint, yw'r peiriant i Economi Gogledd Cymru a'r ganolfan ar gyfer gweithgareddau gweithgynhyrchu yng Nghymru. Mae oddeutu 22% o'r boblogaeth weithwyr yn CBS Wrecsam yn gweithio yn y diwydiant gweithgynhyrchu. Mewn blynyddoedd diweddar mae'r economi wedi addasu i gynnal y safle yma drwy symud tuag at weithgynhyrchu gwell, amrywio sectorau tyfiant a chartrefu arbenigedd Prifysgol Glyndŵr mewn busnesau rhyngwyneb digidol. Mae CBS Wrecsam yn lleoliad cystadleuol, deniadol i fusnesau o dramor, am ei fod o fewn dwy awr mewn car i draean o boblogaeth breswyl Prydain a hanner ei diwydiant gweithgynhyrchu. Mae Wrecsam yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, ar y ffin â Lloegr, ac mae'n agos at ddatblygiad y ddinas cyfryngau newydd yn Salford, ac mae'r ardal yn gartref i fwy na 400 o fusnesau digidol creadigol, gyda 3000 arall o fewn taith awr yn y car.

4.5.12 Mae economi Wrecsam wedi esblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd dilynol, gan adlewyrchu'r newidiadau yn economi'r ffin. Er bod rhai o'r gweithgynhyrchwyr mawr megis Firestone wedi ymadael ers tro byd, mae nifer o gwmnïau mawrion yn parhau megis Kellogg's, JCB Transmissions a Prysmian Cables ymysg eraill. Mewn blynyddoedd diweddar, mae'r ardal wedi denu cenhedlaeth newydd o fusnesau gwybodaeth technoleg uchel modern a llai megis Cytac Advanced Materials, Nu Instruments, IPSEN Biopharm a Wockhardt Pharmaceuticals.

4.5.13 Mae Ystad Ddiwydiannol Wrecsam yn arbennig yn cynnal ei sail weithgynhyrchu gref ac mae'n gartref i 350 o gwmnïau sy'n cyflogi oddeutu 7500 o bobl. Mae ffordd fynediad newydd yn costio mwy na £30m (wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru) wedi agor yn haf 2012 gan gadarnhau statws yr Ystad fel un o brif ganolfannau'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru.

4.6 Hanes a Rheolaethau Ailddatblygu ac Ailddatblygu yn y Dyfodol

4.6.1 Cyn 1974 roedd y Fwrdeistref Sirol bresennol wedi ei gwahanu yn bedair ardal ar wahân: Cyngor Dosbarth Gwledig Wrecsam, Cyngor Dosbarth Gwledig Maelor, Cyngor

Dosbarth Trefol Llangollen, a Chyngor Bwrdeistref Wrecsam. Yn 1974 ymunodd y cyfan neu ran o'r Cynghorau hyn i ffurfio Cyngor Bwrdeistref Wrecsam Maelor. Yn 1996 ymunodd Cyngor Bwrdeistref Wrecsam Maelor gyda rhan o Gyngor Dosbarth Glyndŵr i ffurfio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Gwnaeth y newidiadau sylweddol hyn yn strwythur CBS Wrecsam, a ddigwyddodd yn ystod y 30 mlynedd diwethaf, hi'n anodd i gasglu gwybodaeth gywir am hanes ailddatblygu'r Fwrdeistref Sirol.

4.6.2 Mae strategaeth yr UDP yn rhoi'r pwyslais ar yr angen am ddiogelu amwynder anheddau a'r economi ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau tir drwy'r polisïau a ganlyn:

- Polisi PS1 Bydd y datblygiad newydd ar gyfer y gwasanaethau tai, cyflogaeth a chymunedol wedi'u cyfeirio o fewn ardaloedd cyflogaeth/cyfngiadau anheddiad a ddiffinir.
- Polisi PS2 Ni chaiff y datblygiad effeithio'n niweidiol ar gefn gwlad, cymeriad y tirlun/treflun, manau agored, neu ansawdd yr amgylchedd naturiol.
- Polisi PS3 Dylai'r datblygiad ddefnyddio tir maes brown a ddatblygwyd yn flaenorol, yn cynnwys tir gwag, diffaith neu nad yw wedi'i ddefnyddio'n ddigonol yn lle denfyddio tir maes glas, lle bo'n bosibl, yn arbennig lle mae tir maes glas o werth ecolegol, tirlun neu amwynder, neu'n cynnwys tir amaethyddol o ansawdd graddau 1, 2 neu 3a.
- Polisi PS4 Dylai'r datblygiad gynnal cymeriad a phatrwm yr anheddiad presennol a chael ei integreiddio â'r rhwydwaith cludiant presennol er mwyn helpu i ostwng yr angen cyffredinol am deithio ac annog defnyddio opsiynau eraill heblaw'r car.

4.6.3 Mae'r adran Rheoli Datblygiad o fewn yr Adran Datblygiad a Lles Cymunedol yn ymgynghori ar hyn o bryd gyda'r tîm Amddiffyn yr Amgylchedd o fewn yr Adran Tai ac Amddiffyn y Cyhoedd ar oblygiadau amgylcheddol cyffredinol (h.y. problemau posibl gyda sŵn, llwch a llygredd) datblygiadau arfaethedig pan dderbynnir cais cynllunio.

4.6.4 Mae Amodau Cynllunio wedi cael eu hychwanegu'n rheolaidd at ganiatadau cynllunio ers 2002 er mwyn sicrhau bod datblygwyr yn gwneud asesiad risg llawn ac, os oes raid, yn adfer ardaloedd o lygredd ar ddatblygiadau newydd cyn i'r safleoedd gael eu defnyddio. Efallai y bydd gofyn cael mesurau lleihau hefyd ar gyfer rhai datblygiadau a allai gael eu heffithio gan symudiad nwy tirlenwi o fewn 250 metr i gyn-safleoedd tirlenwi.

4.6.5 Yn ystod y cyfnod o 10 mlynedd, 2001-2011, cafwyd datblygiad ar 81 hectar o dir, oedd â rhyw fath o ddefnydd hanesyddol a llygredd posibl (gan gynnwys y safleoedd hynny o fewn 250m i gyn-safle tirlenwi). Cwblhawyd ymchwiliad tir llygredig a, lle bo'i angen, waith adfer gan y datblygwyr ar y tir yma i sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio. Mae 308 hectar pellach o dir wedi'i asesu ac yn aros datblygiad neu wiriad terfynol o'r gweithiau adfer.

4.7 Y Prif Fathau o Eiddo

4.7.1 Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys:

- dros 1040 o adeiladau rhestredig sy'n nodedig am eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig;
- 23 ardal gadwraeth, lle mae'r pwyslais ar sicrhau bod adeiladau, adeileddau, coed, manau agored, ac elfennau eraill o'r amgylchedd, yn cadw neu'n gwella cymeriad unigryw'r ardal gadwraeth;
- 113 o henebion rhestredig, gyda Chlawdd Wad a Chlawdd Offa o bwysigrwydd arbennig;
- Safle Treftadaeth Byd Camlas a Dyfrbont Pontcysyllte; ac
- oddeutu 2000 o safleoedd heb eu rhestru sydd o ddiddordeb archeolegol.

4.8 Cynefinoedd Bywyd Gwyllt wedi eu Gwarchod yn Statudol ac yn Anstatudol - eu Lleoliad a'u Statws

4.8.1 Mae'r safle canlynol yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) – y Berwyn a De Bryniau Clwyd; yr Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid; Safleoedd Madfallod y Dŵr Johnstown; a Mawnogydd Fenns, Whixall, Llys Bedydd, Wem a Cadney.

4.8.2 Mae'r Berwyn yn Ardal o Amddiffyniad Arbennig.

4.8.3 Mae'r canlynol yn safle Ramsar – Mawnog a Mwsoglau'r Canolbarth (Cam 2)

4.8.4 Mae 19 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn y Fwrdeistref Sirol. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli SoDdGA. Mae Atodiad VI yn rhestru'r safleoedd ac mae'r cyfan ohonynt yn cael eu manylu ar droshaen i system GIS CBS Wrecsam.

4.8.5 Yn ogystal, mae tua 161 safle yn y Fwrdeistref Sirol sydd wedi eu dynodi fel Safleoedd Bywyd Gwyllt anstatudol. Mae ganddynt bwysigrwydd lleol o ran gwarchod natur a/neu bwysigrwydd daearegol rhanbarthol nad ydynt efallai'n deilwng o ddiogelu statudol ond sy'n bwysig o ran gwarchod natur ac a allai gael eu hamddiffyn gan bolisi cynllunio. Bydd y diogelu hwn yn bwysig lle mae angen caniatâd cynllunio, er enghraifft ar gyfer gwaith adfer. Mae'r safleoedd hyn i gyd wedi'u disgrifio ar droshaen i system GIS CBS Wrecsam.

4.8.6 Mae un Warchodfa Natur Leol yn y Fwrdeistref Sirol – Parc Gwledig Dyfroedd Alun, Llai ac mae cynlluniau ar waith i ddynodi Gwarchodfa Natur Leol ym Mhlas Pŵer, Southsea. Gall gwarchodfeydd o'r fath fod wedi eu dynodi ar dir sydd o dan reolaeth CBS Wrecsam.

4.8.7 Mae mwy nag un dynodiad ar rai o'r ardaloedd, e.e. tir sy'n SoDdGA ac yn SAC.

4.8.8 Mae'n hysbys fod rhai rhywogaethau pwysig yn ffynnu ar safleoedd gyda llygru tir a bydd yr elfen hon yn cael ei chofio.

4.9 Materion Allweddol Adnoddau / Diogelu Dŵr

4.9.1 Daeareg – dyfyniad yw'r wybodaeth yn y paragraffau canlynol o Adroddiad Technegol WA/91/4 Arolwg Daearegol Prydain (BGS) 'Mapio Daearegol Cymwysedig yn Ardal Wrecsam – daeareg a chynllunio defnydd tir', 1991.

4.9.2 Creigiau gwaddodol o Oes y Glo sydd bennaf yn y Fwrdeistref Sirol yn gorwedd yn anghydfurfiadwy ar greigiau Ordofigaidd sydd eu hunain â chreigiau Permo-Triasig yn anghydfurfiadwy drostynt. Fel sail, mae gan y dilyniant Carbonifferaidd hyd at 2225m o garreg galch gyda cherrig llaid a thywodfeini isradd. Dros hyn mae hyd at 420m o dywodfeini a cherrig llaid Grut Melinfaen (Ffuriant Helygain). Ar ôl y rhain yn eu tro daw hyd at 520m o Haenau Glo Cynhyrchiol (Ffuriant Llys Bedydd), wedi ei nodweddu gan ailadrodd cylchol o garreg laid, lleidfaen, tywodfaen, is-haen a glo. Ar ôl yr Haenau Glo Cynhyrchiol daw hyd at 900m o 'Haenau Cochion' (Haenau Glo Uchaf). Yn aml bydd y rhain hefyd yn dangos ailadrodd cylchol o haenau, ond gyda gwythiennau glo wedi datblygu'n wael. Mae'r tywodfeini Permo-Triasig ddaw wedyn (hyd at 540m) wedi eu gorchuddio'n llwyr gyda mariandir trwchus (arwynebol) o darddiad rhewlifol neu ôl-rewlifol cymharol ddiweddar (a waddodwyd yn ystod yr 20,000 mlynedd diwethaf), fel y rhan fwyaf o frigiad yr Haenau Glo Cynhyrchiol a 'Haenau Cochion'.

4.9.3 Gogwyddiad graddol tua'r dwyrain sydd i'r haenau ac mae hyn yn cael ei ddangos yn fras yn ffurf tir y Cyngor. Mae'r tir uchel yn y gorllewin yn adlewyrchu brigiad cerrig calch sylweddol y Garreg Galch Garbonifferaidd a thywodfaen gwaelodol y Grut Melinfaen. Tua'r dwyrain mae rhediad graddol i gyfeiriad dyffryn eang Dyfrdwy a gwastadedd Sir Gaer a Swydd Amwythig. O dan y rhediad hwn mae cerrig llaid meddalach, haws eu herydu, ac yn bennaf dan orchudd o fariandir sy'n perthyn i amrywiol raniadau'r Haenau Glo ac, yn olaf, tywodfeini'r Permo-Triasig.

4.9.4 Yn y Fwrdeistref Sirol mae'r rhan fwyaf o ffawtiau (diffygion dilyniant yn y graig soled) yn serth, o fewn 20° i fertigol. Oherwydd mai dim ond mewn mwyngloddiau a chwareli y bydd ffawtiau i'w gweld fel arfer, trwy gasgliad y nodwyd lleoliad y rhan fwyaf o'r ffawtiau yn yr adroddiad.

4.9.5 Mae priddoedd ar y mariandir yn newidiol iawn, gyda'r priddoedd ysgafn tra sych ar y gwelyau tywod a gro helaeth o gwmpas Wrecsam a Gresford yn cyferbynnu â'r priddoedd clai trymach a ddatblygodd ar y tir clog-glai i'r de, dwyrain a gorllewin.

4.9.6 Mae pantiau lleol yn llawn mawn a chlai o gyfnod cilio'r rhew, ac yn dwyn yr enw pyllau tegell, wedi eu crynhoi'n bennaf rhwng Gresford a Wrecsam.

4.9.7 Hydrodaeareg - dyfyniad yw'r wybodaeth yn y paragraffau canlynol o'r Adroddiad Technegol BGS a grybwyllwyd eisoes. Y prif ddyfrhaenau yn ardal y Fwrdeistref yw'r Garreg Galch Garbonifferaidd, tywodfeini yn y Grut Melinfaen (Ffuriant Helygain), tywodfeini yn yr Haenau Glo Cynhyrchiol (Ffuriant Llys Bedydd) a'r tywodfeini Permo-Triasig (ffurfiannau Tywodfaen Kinnerton a Gwelyau Cerrig Môn Caer).

4.9.8 I raddau helaeth mae gorchudd o fariandir trwchus, cymharol anhydraidd yn gwarchod y rhan fwyaf o'r dyfrhaenau craig soled rhag llygredd, heblaw am y Garreg Galch Garbonifferaidd; mae cyflenwadau dŵr sy'n cael eu tynnu o'r mariandir ei hun yn haws eu llygru. Mae rhagor o fanylion am hydrodaeareg a dyfrhaenau yn Atodiad VII.

4.9.9 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dynodi 5 Parth Diogelu Ffynonellau (ardaloedd gwarchodedig oherwydd eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau tynnu dŵr codi) sy'n berthnasol i'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r pedwar o fath Parth III sy'n cynnwys y dalgylch cyfan a'r diffiniad yw ardal sydd ei hangen i gynnal tynnu o adlenwad dŵr codi blynyddol hirdymor (glaw effeithiol). Mae dau barth llai, o fewn Parth III o Fath II. Mae hyn yn diffinio lleiafswm radiws o naill ai 250m neu 500m o amgylch y ffynhonnell, yn dibynnu ar faint y tyniant ac mae ganddo 400 diwrnod o amser teithio o bwynt islaw'r lefel trwythiad. Mae Ffigur 3 yn dangos y parthau o fewn a'r rhai ychydig y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol.

Ffigur 3 – Parthau Diogelu Ffynonellau Cyfoeth Naturiol Cymru

© Hawliau cronfa ddata a hawlfraint y Goron 2011. Arolwg Ordnans 100023429. Nid oes caniatâd gennych i gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd partion mewn unrhyw ffurf. Nid yw ar raddfa.

4.9.10 Hydroleg – Mae Adroddiad Technegol BGS yn datgan bod rhediad graddol iawn, drwyddi draw, yn y mariandir o Wrecsam tua'r dwyrain i gyfeiriad dyffryn eang Dyfrdwy. Yn torri ar draws y rhediad hwn mae llawer o fân donnau a dyffrynnoedd nentydd bas, a hefyd lethr amlwg yn wynebu tua'r dwyrain rhwng Merffordd a Marchwiel ar ymyl dwyreiniol gwelyau tywod a gro 'cyfordraeth delta Wrecsam'. Afon Clywedog a'i hisafonydd sy'n draenio rhan ddeheuol yr ardal. Mae'r draenio cyffredinol o'r gorllewin i'r dwyrain, ond mae nifer o fân nentydd â thueddiad gogledd-de fwy neu lai.

4.9.11 Prif ddraeniad y Fwrdeistref Sirol yw'r Ddyfrdwy a'i hisafonydd, Afon Ceiriog ac Afon Alun yn arbennig. Afon Perai, un o isafonydd yr Hafren sy'n draenio'r rhannau mwyaf deheuol. Mae'r nentydd yn dueddol o lifo'n weddol gyflym gyda mynegrif llif sylfaenol yn amrywio o 0.49 ar y Ddyfrdwy i 0.67 ar Afon Perai. Mae rhannau helaeth o wastadedd llifwaddod y Ddyfrdwy yn dueddol o gael eu gorlifo neu fe fyddent dan ddŵr pe bai llifgloddiau amddiffynnol yn torri neu'n cael eu trechu. Yr ardaloedd hyn sy'n ffurfio parth diogelu gorlifdir Dyfrdwy.

4.9.12 Mae dalgylch dŵr ffres y Ddyfrdwy yn Barth Diogelu Dŵr⁷ h.y. o gyrion Llyn Tegid, tarddle'r afon, i Gaer, i'r terfyn llanw yn Sir Gaer. Caiff 2 filiwn o bobl yng ngogledd-ddwyrain

⁷ Y Ddyfrdwy yw Parth Diogelu Dŵr cyntaf Prydain, wedi ei ddynodi o dan adran 93 o Ddeddf Adnoddau Dŵr, 1991.

Cymru, Sir Gaer a Glannau Mersi eu cyflenwi â dŵr yfed o chwe man tynnu. Mae'r dynodiad yn golygu, ers 21 Mehefin 1999, bod rhaid i berson neu gwmni fod â hawl (ar ffurf caniatâd) i gynnal gweithgaredd rheoledig⁸ yn y Parth. Diben y rheoli hyn yw lleihau digwyddiadau llygru o ffynonellau diwydiannol sydd wedyn yn effeithio ar ddefnyddio'r Afon fel cyflenwad yfadwy. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli adnoddau dŵr (dyfroedd rheoledig) a Dŵr Cymru sy'n rheoli cyflenwad dŵr i'r cyhoedd.

4.9.13 Mae'r glaw cymedrig dros yr ardal oddeutu 700mm y flwyddyn dros y tir isaf yn cynyddu i 900mm y flwyddyn dros y tir uwch. Caiff yr anwedd-drydarthu cymedrig ei gyfrif tua 450mm y flwyddyn. Trwch a hydreddedd y mariandir sy'n rheoli treiddiad yn bennaf, ac mae'n amrywio ar gyfartaledd rhwng 50 a 250mm y flwyddyn.

4.10.14 Mae tîm Amddiffyn yr Amgylchedd yn Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn dal cofnodion o gyflenwadau dŵr preifat ar ffurf Cofrestr Gyhoeddus ar gronfa ddata gyfrifiadurol. Sefydlodd Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 y safonau iachuswydd cyflenwadau preifat ac yn nodi dyletswyddau awdurdodau lleol o ran samplu a dadansoddi cyflenwadau preifat. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn rheoli trwyddedau tynnu, er bod hyn ar gyfer tyniadau o fwy nag 20m³ y dydd. Mae manylion y trwyddedau hyn ar gronfa ddata GIS CBS Wrecsam.

Ffigur 4 – Mannau Tynnu Dŵr a Llinellau Trwyddedig Cyfoeth Naturiol Cymru

© Hawliau cronfa ddata a hawlfraint y Goron 2011. Arolwg Ordnans 100023429. Nid oes caniatâd gennych i gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf. Nid yw ar raddfa.

4.9.15 Ar hyn o bryd mae CBS Wrecsam wedi cofrestru cyfanswm o 199 o gyflenwadau preifat. Caiff y dŵr ei ddefnyddio ar gyfer: cartrefi, llaethdy, cynhyrchu neu lety gwyliau. Y ffynonellau dŵr yw: ffynhonnau, pydewau neu dyllau turio. Mae rhai o'r ffynonellau dŵr heb driniaeth, tra bo un neu ddau o'r dulliau canlynol yn cael eu defnyddio i drin y gweddill: hidlydd, uwchfioled, clorineiddio, hidlydd ceramig, hidlydd gwaddod, tynnu haearn a manganîs, sglodion carreg galch yn y tanc, tynnu nitradau, clorin deuocsid / osmosis o chwith a/neu feddalydd.

4.10 Nodweddion Lleol Penodol

4.10.1 Mae gwybodaeth gyfyngedig am dir gwneud (h.y. tir annaturiol wedi ei adael gan bobl) yn Adroddiad Technegol WA/91/4 Arolwg Daearegol Prydain (BGS) 'Mapio Daearegol Cymwysedig yn Ardal Wrecsam – daeareg a chynllunio defnydd tir', 1991. Mae'r ddogfen yn datgan bod:

“Tir gwneud yn helaeth ac o gyfansoddiad newidiol. Fel arfer mae cofnodion da o lenwi hen safleoedd brig a phyllau tywod a gro a adferwyd yn ddiweddar; gall pyllau a chwareli cynharach fod wedi eu llenwi gyda deunydd anhysbys...”

“Mae'r rhan fwyaf o dir gwneud yn dod o fwyngloddio (metellog a glo), chwarela, datblygu tir ac argloddiau ffyrdd a rheilffyrdd. Yr ardaloedd mwyaf yw'r rhai cysylltiedig â phyllau plwm y Mwynglawdd (o gwmpas SJ 261 519 – 277 509), Gwaith Dur Brymbo (SJ 298 534), y pyllau glo dyfnach yn rhan ddwyreiniol y maes glo fel yng Nglofa Llay Main (SJ 325 562), Pwll Glo'r Bers (SJ 312 480), Pwll Glo'r Hafod (SJ 311 469) a Phwll Glo Gresford (SJ 336 538), ac ar hyd yr A483...”

“Yn gyffredinol mae tomennydd gwastraff cloddio metellog yn cynnwys deunydd gwythiennau calsit a'r graig leol, yn bennaf carreg galch. Fodd

⁸ Gweithgaredd rheoledig yw cadw neu ddefnyddio maint perthnasol o sylwedd rheoledig (unrhyw sylwedd, soled neu hylif naturiol neu wneud yn ôl y diffiniad yn PDD Dyfrdwy 1 'Cyfarwyddwyd ar gyfer Caniatâd i gynnal gweithgaredd rheoledig o fewn PDD y Ddyfrdwy'.

bynag, gall rhai o'r tomennydd gynnwys swm sylweddol o fwynau sylffid (galena (plwm) a sffalerit (sinc)). Fel arfer bydd tomennydd glo yn cynnwys malurion carreg laid, lleidfaen a thywodfaen, gyda swm sylweddol o lo ambell waith. Yn raddol mae rhai o'r tomennydd mwy (e.e. Llay Main) yn cael eu symud, neu'n cael eu tirlunio, a'u cynnwys yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu brisblochiau a chynhyrchion tebyg. Yn gyffredinol mae tir gwneud sy'n perthyn i chwarela carreg galch yn cynnwys carreg laid galchaid a charreg galch leidiog, a thir gwneud sy'n perthyn i dynnu tywod a gro fel arfer yn cynnwys tywod, siltiau a llaid gronynnog mân."

"Fel arfer mae ôl-lenwad safleoedd tywod a gro, glo brig a thynnu arall yn cynnwys gwastraff y tynnu ei hun (e.e. tywod a gro (SJ 357 560), glo (SJ 307 499), clai (SJ 309 454)... Fodd bynnag, gall hefyd gynnwys sbwriel cartref a gwastraff diwydiannol mewn safleoedd cymeradwy [ar ôl dyfodiad rheoli gweithgareddau claddu gwastraff, h.y. 1974]..."

4.10.2 Cyn hir bydd BGS yn cyhoeddi adroddiad ar yr hyn a ystyrir yn lefelau arferol o halogyddion dethol mewn priddoedd Cymreig, i gefnogi'r Cyfarwyddyd sy'n ystyried lefelau cefndir. Paratowyd yr adroddiad ar sail casglu a dadansoddi'r data sydd ar gael yn genedlaethol. Cyfeirir at hwn wrth weithredu'r Strategaeth o ystyried y manau cloddio sydd o fewn y Fwrdeistref Sirol, y cyfeirir atynt ym mharagraff 4.10.1.

4.10.3 Mae Adroddiad Technegol BGS WA/91/4 hefyd yn dangos y gall hen weithfeydd glo weithredu fel manau lle bydd methan yn cronni, yn ogystal â chroniad mwy cyffredin methan mewn hen safleoedd claddu gwastraff. Mae posibilrwydd cael ymlogiad digymell os bydd gwastraff glo yn cael ei symud o dan rai amgylchiadau yn cael ei grybwyll hefyd.

4.10.2 Mae crynadau amrywiol o radon⁹ yn y Fwrdeistref Sirol ac mae map yn dwyn yr enw 'Atlas Dangosol Radon yng Nghymru a Lloegr' (ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Lloegr) yn dangos yr ardaloedd lle na fydd unrhyw amddiffyniad, neu lle bydd amddiffyniad sylfaenol ac amddiffyniad llawn yn debygol o fod ei angen. Mae isadran Rheoli Adeiladu Adran Gynllunio CBS Wrecsam yn rhoi cyngor ar amddiffyn cartrefi rhag radon. Nid yw Rhan 2A yn cynnwys niwed i, neu lygru, dyfroedd rheoledig o ganlyniad i nodweddion ymbelydrol unrhyw sylwedd (gwelwch Adran 1.2 y Cyfarwyddyd), felly, pan yn gweithredu'r Strategaeth hon, ni fydd radon yn cael ei ystyried fel ffynhonnell llygredd.

⁹ Nwy naturiol yw radon sydd i'w gael mewn pob math o bridd a chraig. Nid oes iddo liw, blas nac arogl a gall crynadau yn y tir amrywio o fewn ychydig fetrau. Mewn manau agored, bydd radon yn cymysgu â'r awyr a'i wanhau yn yr awyrgylch ond, gall radon sy'n codi o'r pridd i gartrefi (drwy agennau, tyllau, ac ati...) fod yn beryglus i iechyd pobl.

5 DULLIAU GWEITHREDU'R STRATEGAETH

5.1 Trefniadau Rheoli Mewnol ar gyfer Archwilio a Chanfod

5.1.1 Fel y manylir ym mharagraff 1.12, Tîm Diogelu'r Amgylchedd yn Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd CBS Wrecsam sy'n gyfrifol am weithredu Rhan 2A.

5.1.2 Y swyddogion sy'n benodol gyfrifol am y Strategaeth hon yw:

- Prif Reolwr Amddiffyniad Amgylcheddol a Gorfodaeth - sef Robert Johnston ar hyn o bryd, sy'n rheoli a goruchwyllo cynnydd y Strategaeth.
- Y Swyddogion Tir Llygredig – sef Angela Guy, Helen Bradshawe, Stacey Inglis a Paul Sleeman ar hyn o bryd sy'n gwneud gwaith rheoli data a gweithredu'r Strategaeth.

5.2 Casglu Gwybodaeth

5.2.1 Mae nifer o ffynonellau gwybodaeth sy'n cael eu harchwilio er mwyn canfod safleoedd allai fod yn llygrol, derbynnyddion llygru tebygol a bodolaeth unrhyw lwybrau o'r ffynonellau llygredd i'r derbynnyddion. Mae rhestr o'r ffynonellau hyn yn Atodiad VIII. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n darparu rhywfaint o'r wybodaeth sydd wedi'i rhestru yn yr Atodiad hon, fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, a chaiff hyn ei ddiweddarau drwy wefan.

5.3 Cymhwysedd Rhan 2A

5.3.1 Dim ond llygriad hanesyddol y mae'r gyfundrefn tir llygredig yn ymwneud ag o. Ond, fel y trafodwyd ym mharagraff 1.1.4, ni ellir defnyddio hwn lle mae cyfundrefnau deddfwriaethol eraill yn berthnasol, sef Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 a'r cyfundrefnau cynllunio a rheoliadau adeiladu. Bydd angen ystyried hwn cyn symud ymlaen ag archwilio safleoedd o dan Rhan 2A.

5.3.2 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae'r Rheoliadau hyn yn mynnu bod gweithredwyr gweihgareddau diwydiannol penodol yn ymgeisio am hawlen i weithredu, sef Caniatâd Atal a Rheoli Llygredd mewn ffordd Integredig (IPPC). Rhaid i'r ymgeisydd ystyried yr holl effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r gosod, gan gynnwys paratoi adroddiad safle cychwynnol (cynllun amodau'r safle sy'n gorfod canfod unrhyw sylweddau o fewn, ar neu o dan y tir, gan ddefnyddio dull doleniad llygrydd, a allai achosi risg o lygredd. Bydd yr adroddiad safle cyntaf yn feincnod maes o law ar gyfer cymharu gydag ail adroddiad safle y mae'n rhaid i'r gweithredydd ei lunio os yw eisiau ildio'r hawlen i weithredu. Mae'n ofyniad ar y gweithredydd i sicrhau bod camau angenrheidiol wedi'u cymryd i osgoi unrhyw risg o lygriad a ganfuwyd ac i ddychwelyd y safle i gyflwr boddhaol – fel a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad safle cyntaf.

5.3.3 Bydd CBS Wrecsam yn derbyn copi o holl geisiadau Caniatâd IPPC (gan gynnwys yr adroddiad safle cyntaf), un ai fel ymgyngorai statudol neu fel rheolydd. Gall yr wybodaeth yn yr adroddiad safle ddangos bod y safle yn ateb diffyniad 'tir llygredig' o dan Ran 2A. O ganlyniad byddai CBS Wrecsam angen i'r gweithredwr adfer llygredd sydd yno eisoes o dan ddarpariaethau Rhan 2A, neu reolaeth ar ddatblygu heb fod o dan y Rheoliadau PPC. Gall y Caniatâd IPPC gael ei roi yr un pryd.

5.3.4 Os yw'r safle wedi ei lygru yn ddifrifol gyda deunydd o weithrediadau cyn dyfodiad IPPC oedd, am ryw reswm heb ei adfer cyn dechrau gweithrediad IPPC, yna fe all eto gael ei adfer o dan gyfundrefn Rhan 2A ar ôl ei gau. Yn ogystal, mae modd ystyried gwaith adfer o dan y Rheoliadau Caniatâd.

5.3.5 Y Gyfundrefn Gynllunio. Ers 1 Ionawr 2002, mae ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud â chynlluniau adeiladau newydd a newidiadau i ddefnydd mwy sensitif (er enghraifft, newid o dir diwydiannol i eiddo preswyl) yn cael eu gwirio'n rheolaidd mewn perthynas â phresenoldeb llygriad posibl i'r tir ar neu o fewn pellter a allai effeithio ar y safle datblygu arfaethedig. Ar gyfer y datblygiadau arfaethedig yma, lle mae'r tîm Amddiffyn yr Amgylchedd yn cynghori

felly, ar sail yr wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael iddynt, bydd yr adran Rheoli Datblygiad yn gofyn i'r datblygwyr drwy amod cynllunio ar y caniatâd cynllunio, fodloni CBS Wrecsam bod presenoldeb unrhyw lygriad wedi'i asesu'n ddigonol ac yn dilyn hynny sicrhau bod y tir yn addas (neu'n cael ei wneud yn addas) ar gyfer y defnydd newydd arfaethedig yn unol â safonau cydnabyddedig. Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd yn rhaid gwrthod caniatâd cynllunio neu ohirio'r cais tra bo archwiliadau pellach ar waith.

5.3.6 O ganlyniad, ni fydd datblygiadau o'r fath sydd wedi'u prosesu'n gywir drwy gyfundrefn gynllunio ers 1 Ionawr 2002, wedi'u pennu'n 'dir llygredig' o fewn ystyr Rhan 2A ac ni ddylid bod angen eu hymchwilio ymhellach.

5.3.7 Mae Rheoliadau Adeiladu 2010 yn gofyn bod rhagofalon rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y risg sy'n codi oherwydd difwynwyr i iechyd a diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r adeilad a'r tir oddi cwmpas yn cael ei osgoi, a bod y risg i niwed sy'n codi o'r adeiladau eu hunain yn cael ei osgoi hefyd. Yn gyffredinol, bydd angen i ddatblygiadau sy'n cael eu hadeiladu yn unol â'r Rheoliadau hyn ar dir a allai fod yn llygredig gwrdd â gofynion y Gyfundrefn Gynllunio y cyfeirir ati ym mharagraff 5.3.5. Ond, lle mae argymhellion ar gyfer amodau cynllunio wedi'u gwrthod, efallai y bydd gofyn adfer safle datblygiad i fodloni'r Rheoliadau Adeiladu, ac felly ni fyddai'r safle'n cael ei alw'n 'dir llygredig' o fewn ystyr Rhan 2A ac ni ddylid bod angen ei archwilio ymhellach.

5.4 Blaenoriaethu Safleoedd ar gyfer Archwilio

5.4.1 Mae'r Cyfarwyddyd yn mynnu bod asesu potensial safleoedd tir llygredig yn cael ei flaenoriaethu.

5.4.2 Mae'r wybodaeth a sicrhawyd gan CBS Wrecsam am ddefnyddiau tir blaenorol a allai fod yn llygredig wedi'i ddigido a'i rhoi ar gronfa ddata. Mae'r safleoedd sy'n cael eu blaenoriaethu wedi'u seilio'n bennaf ar ddefnydd llygredig blaenorol y safle (risg sy'n uchel iawn, uchel, canolog neu isel), sensitifrwydd defnydd presennol y tir, pa mor agos ydyw a'i sensitifrwydd i dderbynyddion dŵr rheoledig, pa mor agos a sensitif ydyw i dderbynyddion Rhan 2A arall ac, i raddau llai, unrhyw wybodaeth berthnasol arall a wyddys ar y pryd e.e. daeareg a draeniad. Mae paragraff 2.3.1 yn rhestru derbynyddion yn nhrefn eu sensitifrwydd i Wrecsam.

5.4.3 Mae Atodiad X yn cyflwyno rhestrau o weithgareddau a allai lygru. Bydd y safleoedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 5.5.2 wedi'u pennu'n bennaf ar sail y rhestr yma o ddefnydd amrywiol y tir. Bydd safleoedd wedi'u pennu'n bennaf o fapiau Arolwg Ordnans (OS) o amrywiol argraffiadau a graddfeydd. Bydd y mapiau wedi'u gwirio gan ddechrau gyda'r argraffiad cynharaf ar gyfer yr ardal gyntaf, yn cael ei ddilyn gydag argraffiadau diweddarach yn nhrefn dyddiadau fel ag i ganfod defnyddiau sydd wedi dod i ben. Yn ogystal â nodweddion amlwg ar y mapiau, e.e. gwaith cemegol, bydd nodweddion llygrol llai amlwg, fel pyllau mwyn sy'n 'diflannu' o argraffiadau dilynol, yn cael eu nodi rhag ofn iddynt fod wedi datblygu yn safle llenwi tir. Bydd rhagofalon wrth ddefnyddio mapiau o'r fath, fel y manylir yn 'Adroddiad Ymchwil Tir Llygredig 3' Adran yr Amgylchedd gynt yn cael eu cofio.

5.4.4 Mae safleoedd yn cael eu harchwilio yn nhrefn eu blaenoriaeth cyn belled ag y bo modd ac wedi'u seilio ar wybodaeth oedd yn hysbys ar y pryd.

5.5 Archwilio Safleoedd

5.5.1 Gwneir asesiad o reolaeth ar lygriad tir yn unol â'r dogfennau arweiniad i arferion gorau, er enghraifft, Gweithdrefnau Enghreifftiol ar gyfer Rheoli Llygriad Tir CLR11, Rhannau 1-3 Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Llygriad Tir a BS10175:2011.

5.5.2 Mae asesiadau risg yn helpu i benderfynu a yw llygriad tir yn broblwm gyfredol ai peidio a deall y risgiau yw'r cam cyntaf yn y broses o reoli llygriad tir. Mae asesiad risg a chymeriad y safle yn cychwyn gydag Asesiad Risg Cychwynnol Cyfnod I (PRA) ac os penderfynir bod hynny'n angenrheidiol, mae'n parhau i Asesiad Risg Meintiol Cyfnod II

(QRA). Os oes angen gwaith adfer, yna mae'r gwaith adfer a gwirio'n cychwyn gyda Gwerthusiad o Opsiynau Adferiad, ac yn dilyn hynny Strategaeth Adfer ac yn olaf Weithrediad a Gwriad, bydd CBS Wrecsam yn sicrhau bod unrhyw waith archwilio safle a wnaiff neu a gomisiynir ganddo'n cydymffurfio â gweithdrefnau arfer da i ganfod llygriad tir a thir llygredig. Cyfeirir at y dogfennau sydd wedi'u rhestru yn Atodiad IX lle bo'n briodol.

5.5.3 Datblygir model cysyniadol ar y cam cynharaf yn yr asesiad risg h.y. y PRS a chaiff ei freinio wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Dealltwriaeth ydyw o nodweddion y safle tri dimensiwn ac mae'n pennu ffynonellau llygriad, symudiad y llygriad, y llwybrau amlygiad a'r derbynyddion, a'r rhyngweithio posibl rhyngddynt (dolenni difwynwyr posibl).

5.5.4 Mae'n debyg y bydd Ymgynghoriaeth Amgylcheddol yn gwneud y gwaith sydd wedi'i ddisgrifio ym mharagraff 5.5.2 ar ran y Cyngor. Byddai'r gwaith wedi'i gomisiynu yn unol â Rheoliadau Cyllidol a gweithdrefnau caffael CBS Wrecsam.

5.5.5 O ran y safleoedd y gellid eu diffinio fel Safleoedd Arbennig, cysylltir â Chyfoeth Naturiol Cymru cyn i unrhyw waith asesu risg gychwyn. Byddai CBS Wrecsam yn ystyried gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru archwilio'r safle ar eu rhan.

5.5.6 Lle mae'r tir yn eiddo i berchennog preifat, ni cheir mynediad i'r tir heblaw bod y perchennog neu'r deiliad yn rhoi caniatâd o flaen llaw neu bod gan y Cyngor bwerau mynediad priodol. Cysylltir yn gyntaf â pherchennog/deiliad y safle i ganfod a oes rhagor o wybodaeth ar gael a allai helpu i ganfod statws llygriad y safle. Cymerir pob gofal i osgoi achosi braw a difwyniad

5.5.7 Pwerau Mynediad – O dan Adran 108(6) Deddf yr Amgylchedd 1995, mae pwerau mynediad ar gael i Gynghorau gynnal archwiliadau i gael gwybodaeth ddigonol i benderfynu pa un ai yw'r safle yn cymhwyso fel tir llygredig ai peidio. Cyn defnyddio'r pwerau hyn bydd CBS Wrecsam yn ceisio caniatâd gwirfoddol perchennog y tir. Ymhellach, bydd CBS Wrecsam hefyd yn sicrhau ei fod yn fodlon bod tebygolrwydd bod cysylltiad llygrol yn bodoli. O ran archwiliad ymwithiol o'r safle, ni ddefnyddir pwerau mynediad heblaw ei bod hi'n debygol bod difwynydd yn bresennol a/neu y mae'r derbynydd yn bresennol neu'n debygol o fod yn bresennol oherwydd y defydd a wneir o'r tir ar y pryd. Ni cheir defnyddio pwerau mynediad statudol i wneud archwiliad ymwithiol os: yw'r wybodaeth fanwl am gyflwr y tir wedi'i darparu'n barod ac yn caniatáu i benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â llygriad y tir; neu mae rhywun yn cynnig ac yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol o fewn amser rhesymol a phenodol. Rhoddir o leiaf saith diwrnod o rybudd am fynediad arfaethedig i unrhyw eiddo, oni bai fod perygl dybryd i iechyd dynol a/neu i'r amgylchedd.

5.5.8 Os digwydd bod angen mynediad ar frys, sy'n annhebygol, bydd CBS Wrecsam yn dal i geisio cydweithrediad y trefeddiannwr neu ddeiliad y tir cyn mynd ar y safle. Pan na fydd caniatâd i'w gael, neu na fydd modd dod o hyd i berchennog neu ddeiliad y safle, bydd CBS Wrecsam yn ceisio cael mynediad drwy warant lle mae'n fodlon bod perygl sylweddol yn bresennol.

5.5.9 Iechyd a Diogelwch - Bydd iechyd a diogelwch swyddogion CBS Wrecsam a chontractwyr yng nghyflogaeth CBS Wrecsam yn fater allweddol ar gyfer pob archwiliad safle. Cyn cynnal unrhyw waith ar safle gwneir asesiad risg i iechyd a diogelwch. Bydd y gwaith i gyd yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch CBS Wrecsam, gan ystyried dogfen y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch 'Diogelu Gweithwyr a'r Cyhoedd wrth Ddatblygu Tir Llygredig', 1991. Bydd y Swyddog Iechyd Galwedigaethol a Diogelwch ar gael i gynnal cyngor penodol.

5.6 Atebolrwydd

5.6.1 Wedi gorffen yr archwiliadau lle tybir bod y tir yn dir llygredig, cymerir camau i sefydlu atebolrwydd. Rhoddir y prif atebolrwydd i'r 'Person(au) Priodol' h.y. unrhyw un sydd wedi achosi neu wedi caniatáu'r llygrwr yn fwriadol ac sy'n gyfrifol wedyn am adferiad y safle. Ond, os na ellir olrhain lle mae'r rheiny sy'n gyfrifol am y prif lygrwr, daw perchennog/deiliad y tir yn atebol a chânt eu galw'n 'Berson(au) Priodol'. Os oes mwy nag un person yn atebol oherwydd

newid ym mherchnogaeth a defnyddiau hanesyddol y safle, bydd CBS Wrecsam yn dynodi'r atebolrwydd am yr adferiad.

5.6.2 Gwneir ymdrechion rhesymol i bennu a chysylltu â'r person/au priodol ond mewn rhai achosion efallai nad yw hyn yn bosibl ac mae'r tir llygredig yn debygol o ddod yn gyfrifoldeb i CBS Wrecsam neu Gyfoeth Naturiol Cymru fel dolen amddifad.

5.6.3 Ar ôl sefydlu pwy yw'r personau priodol, bydd CBS Wrecsam angen archwilio a yw'r bobl hynny wedi'u heithrio rhag eu hatebolrwydd, yn unol â'r sefyllfaoedd a nodwyd yn y Cyfarwyddyd. Os bydd yr holl bobl priodol yn elwa o'r eithriadau, daw'r safle'n ddolen amddifad y gallai CBS Wrecsam gymryd y cyfrifoldeb amdani.

5.7 Dynodi Tir Llygredig

5.7.1 Os nad oes tystiolaeth neu os nad oes llawer o dystiolaeth gan CBS Wrecsam i awgrymu bod y tir dan archwiliad yn llygredig o dan Ran 2A, bydd CBS Wrecsam yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn dweud hynny, gan ddarparu esboniad amdano.

5.7.2 Os daw CBS Wrecsam i'r casgliad bod y tir yn y fath gyflwr nes ei fod yn cyfateb â'r diffiniad o dir llygredig yn Rhan 2A, yna dilynir y trefnau a ganlyn i sicrhau adferiad y tir hwnnw.

5.7.3 Dull CBS Wrecsam fydd ceisio cael gweithredu gwirfoddol cyn cymryd camau gorfodi a hynny cyn cyflwyno'r Hysbysiad Penderfynu a'r Hysbysiad Adfer. Cyn gwneud penderfyniad ffurfiol bod y tir yn llygredig, bydd CBS Wrecsam yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig (yn anffurfiol fel y mae wedi'i ddisgrifio ar gyfer yr Hysbysiad Penderfynu ym Mharagraff 5.8.4) i: berchnogion a deiliaid y tir ac unrhyw berson arall sy'n ymddangos i'r awdurdod ei fod yn atebol i dalu am adferiad (i ba raddau y mae'r awdurdod yn ymwybodol o'r partïon hyn ar y pryd); a Chyfoeth Naturiol Cymru; am ei fwriad i bennu'r tir, heblaw bod yr awdurdod yn tybio bod rheswm gor-redol am beidio gwneud hynny. Bydd yr awdurdod hefyd yn ystyried:

- ❑ rhoi i'r bobl yma 21 diwrnod i wneud cynrychiolaeth (er enghraifft i geisio eglurhad am y sail ar gyfer penderfynu hyn, neu i gynnig ateb a allai osgoi'r angen am benderfyniad ffurfiol) gan gymryd i ystyriaeth: amcanion eang y gyfundrefn; pa mor argyfyngus yw'r sefyllfa; unrhyw angen am osgoi oedi dianghenraid ac unrhyw ffactor arall y mae'r awdurdod yn ei ystyried yn briodol.
- ❑ a ddylid rhoi gwybod i bartïon eraill sydd â diddordeb, er enghraifft perchnogion a deiliaid tir cyfagos.

Os cyflwynir Hysbysiad Penderfynu, rhoddir 3 mis i ganiatáu i'r rheiny sy'n atebol gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni adferiad o safon foddhaol. Dim ond ar ôl i'r cyfnod yma o 3 mis basio y cyflwynir Hysbysiad Adfer i'r person(au) priodol o dan Reoliadau Tir Llygredig (Cymru), 2006.

5.7.4 Dynodi Ardal o Dir Llygredig (gan gynnwys Safleoedd Arbennig) - Bydd cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw o benderfynu ar dir i'w ddynodi fel tir llygredig, a bydd yn cynnwys y canlynol (yn unol â pharagraffau 5.17 – 5.19 y Cyfarwyddyd):

- ❑ lleoliad, ffiniau ac ardal y tir perthnasol, gan gyfeirio'n briodol at gyfeirnodau grid Arolwg Ordnans;
- ❑ esboniad ynglŷn â pham mae CBS Wrecsam wedi gwneud y penderfyniad drwy ysgrifennu crynodeb o risg (yn unol â Pharagraff 3.35 y Cyfarwyddyd) gyda disgrifiad o:
 - y difwynwyr perthnasol, y cysylltiad llygrol (ffynhonnell, llwybr a derbynnydd), yr effaith/effeithiau posibl a'r posibilid y gallent ddigwydd, a thros ba gyfnod o amser y gallai'r risg ymddangos;
 - ddealltwriaeth CBS Wrecsam o'r ansicrwydd sy'n sail i'w asesiad;

- y risgiau yn eu cyd-destun, er enghraifft drwy osod y risg mewn cyd-destun lleol neu genedlaethol, neu ddisgrifiad o'r risg o lygriad tir mewn perthynas â risgiau eraill allai wynebu'r derbynyddion beth bynnag;
- barn gychwynnol CBS am adferiad posibl gan ddisgrifio'n fras yr hyn y bydd yn ei gynnwys, amseriadau, effeithiau tebygol ar bobl a busnesau lleol ac asesiad cychwynnol a fydd yn cynhyrchu mantais net;
- model safle cysyniadol perthnasol, os nad yw wedi'i gynnwys yn barod yn y crynodeb o risg;
- crynodeb o asesiad perthnasol o'r dystiolaeth hon; a
- crynodeb o sut fydd CBS Wreccsam yn ystyried bod gofynion y Cyfarwyddyd wedi eu bodloni.

5.7.6 Cyflwyno Hysbysiad Adfer - Bydd y camau canlynol yn cael eu cymryd lle bydd angen Hysbysiad Adfer ffurfiol yn dilyn y cyfnod ymgynghori y cyfeirir ato ym mharagraff 5.7.3:

- bydd y Cyngor yn sicrhau bod y camau adfer yn rhesymol fel y trafodwyd ym mharagraff 5.7.8;
- bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r bobl sy'n gysylltiedig â'r adferiad cyn cyflwyno'r Hysbysiad am Adfer, mewn perthynas â'r fethodoleg adfer; ac
- yn dilyn yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r fethodoleg adfer, anfonir Hysbysiad am Adferiad at y person(au) priodol a/neu'r perchennog a/neu ddeiliad y tir a Chyfoeth Naturiol Cymru yn nodi'r camau gweithredu gofynnol.

5.7.6 Bydd CBS Wreccsam yn aros am gyfnod o 21 diwrnod i ganiatáu digon o amser ar gyfer cyflwyno Apêl yn erbyn yr Hysbysiad Adfer i lys Ynadon. Bydd gohiriad yr hysbysiad yn parhau nes bydd yr Apêl wedi ei phenderfynu neu ei thynnu'n ôl gan yr apelydd.

5.7.7 Adfer Gwirfoddol – Os yw'r gwaith adfer i'w wneud trwy gytundeb, h.y. yn wirfoddol, yna bydd y person sy'n gyfrifol am yr adfer yn paratoi ac yn cyhoeddi Datganiad Adfer. Bydd hyn yn disgrifio'r camau adfer, pwy fydd yn eu gwneud a'r amserlenni dan sylw. Dylid paratoi'r Datganiad gan ymgynghori'n agos gydag Adran Diogelu'r Cyhoedd i sicrhau'r safon ofynnol a chael cymeradwyaeth CBS Wreccsam ac i osgoi oediadau a chostau diangen. Bydd CBS Wreccsam yn adolygu ac arolygu'r gweithrediadau i sicrhau bod y gwaith adfer yn cael ei wneud yn foddhaol. Bydd angen i drydydd person, gyda chymwysterau priodol, archwilio a dilysu'r cyfan o'r gwaith adfer i gadarnhau fod safon o gyflawni a chydymffurfio yn cael ei gyrraedd (os na fydd safonau yn cael eu cyrraedd bydd cyflwyno Rhybudd Adfer yn cael ei ystyried).

5.7.8 Gofynion Adfer Rhesymol – Wrth benderfynu'r dewis adfer priodol, bydd y materion canlynol yn cael eu hystyried:

- safon yr adferiad (i wneud y tir 'yn addas i'w ddefnyddio' a sicrhau nad yw'r tir mwyach yn llygredig o fewn y diffiniad statudol, h.y. i sicrhau bod effeithiau unrhyw niwed neu lygredd sylweddol yn cael eu hadfer);
- bod sylw yn cael ei roi i ddifrifoldeb y niwed neu lygru dŵr;
- rhesymoldeb (defnyddio dadansoddiad cost a budd);
- ymarferoldeb (y manylion technegol, safle, amser a chyfyngiadau rheolaethol);
- gwydnwch (bydd gofyn am ateb gwydn lle na fydd tir yn mynd i gael ei ailddatblygu yn y dyfodol agos);
- effeithiolrwydd (i sicrhau bod yr adfer yn gyraeddadwy ac yn ystyried oediadau cyn i'r adfer ddod yn effeithiol); ac
- nad yw'r effaith bosibl ar iechyd dynol a'r amgylchedd yn ystod y broses adfer yn fwy na'r manteision o ostwng/dynnu'r risg a grëir gan y llygriad.

5.7.9 Adfer Brys - Lle mae'n ymddangos i CBS Wreccsam fod perygl dybryd o niwed difrifol neu lygru dyfroedd rheoledig yn ddifrifol o ganlyniad i gysylltiad llygrol sylweddol (ar unrhyw gam yn y gweithdrefnau hyn), gall fod yn angenrheidiol i sicrhau bod adfer brys yn digwydd. Yn yr achosion hyn nid yw gofynion am ymgynghori ymlaen llaw na thri mis o egwyl rhwng dynodi'r tir yn llygredig a chyflwyno'r rhybudd adfer yn berthnasol. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, mae'n bosibl y gall CBS Wreccsam ddefnyddio ei bwerau i wneud y gwaith

adfer ei hun. Heblaw mewn argyfwng, gall hyn digwydd hefyd pan fydd rhywun yn peidio cydymffurfio â Rhybudd Adfer. Yna bydd CBS Wrecsam yn adennill ei gostau rhesymol wrth wneud y gwaith adfer.

5.7.10 Y Gofrestr Tir Llygredig – Os penderfynir bod y safle'n llygredig o dan Ran 2A, bydd CBS Wrecsam yn cadw Cofrestr Tir Llygredig, sy'n cynnwys Hysbysiadau Penderfynu, Hysbysiadau Adfer, manylion am ddirymu hysbysiadau, Datganiadau Adfer a chyhoeddiadau, dedfrydiadau a throseddau, manylion y camau adfer a gwybodaeth arall am gyflwr y safle perthnasol. Mewn amgylchiadau penodol yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol a rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol, gellir eithrio cofnodion o'r fath o'r gofrestr.

5.8 Buddiannau Tir Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

5.8.1 Mae gan CBS Wrecsam bortffolio eiddo mawr sy'n cynnwys tir sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â defnyddiau sensitif, er enghraifft tai, ysgolion, lotments, tir adloniant neu fannau agored cyhoeddus. Mae hefyd yn debygol bod CBS Wrecsam wedi prydlesu, etifeddu neu dderbyn safleoedd y gwyddys bod problemau'n gysylltiedig â nhw sy'n ymwneud â rheoli gwastraff yn y gorffennol neu weithgareddau diwydiannol h.y. ffynonellau llygredd gyda'r bwriad o'i adfer. Efallai mai CBS Wrecsam sy'n gyfrifol am weithgaredd yn y gorffennol sydd wedi achosi llygriad posibl, ond nid CBS Wrecsam yw'r perchennog tir bellach. Bydd angen archwilio tir o'r fath. Bydd y trefniadau a'r gweithdrefnau ar gyfer asesu tir CBS Wrecsam yr un fath â'r rheiny a ddefnyddir gyda'r holl dir arall yn y Cyngor h.y. fel y mae wedi'i ddisgrifio yn adran 5.5. uchod. I sicrhau bod y tir yn cael ei archwilio, mae trefnau rheoli ar waith fel y trafodir ym mharagraffau 5.8.2 hyd 5.8.4

5.8.2 Mae'r Adran Asedau a Datblygiad Economaidd yn dal manylion am bortffolio eiddo CBS Wrecsam ar gronfa ddata electronig, gan gynnwys y defnyddiau sensitif posibl y cyfeirir atynt ym mharagraff 5.8.1 a safleoedd masnachol a diwydiannol. Mae'r gronfa ddata hefyd yn cofnodi tir oedd yn eiddo i CBS Wrecsam yn y gorffennol. Mae Gweithredoedd ystad CBS Wrecsam yn yr Adran Gwasanaeth Cwsmeriaid a Chorfforaethol.

5.8.3 Mae'r Adran Asedau a Datblygiad Economaidd wedi cynnwys y tîm Amddiffyn yr Amgylchedd ar eu rhestr o ymgynghoreion, mewn perthynas â gwaredu tir (gwerthiannau) a phrynu tir.

5.8.4 Hysbysir aelodau etholedig ar y cyfle cynharaf am unrhyw gynlluniau i ddynodi ardal o dir sy'n eiddo i CBS Wrecsam neu dir lle mae CBS Wrecsam yn 'berson priodol' ac a allai fod felly'n atebol am gostau adfer.

5.9 Hynt yr Archwiliad

5.9.1 Fel perchennog blaenorol a gweithredwr safleoedd llenwi tir, mae CBS Wrecsam yn gyfrifol am nifer sylweddol o'r 'hen' safleoedd llenwi tir yn y Fwrdeistref Sirol nad ydynt yn dod o dan reolaeth y trwyddedau rheoli gwastraff presennol. Mae mwyafrif y safleoedd hyn wedi'u harchwilio i asesu a ydynt angen adferiad yn unol â Rhan 2A.

5.9.2 Yn dilyn yr archwiliadau ar y safleoedd tirlenwi, canfwyud nad oes angen unrhyw waith adfer ar rai safleoedd, tra bo gan eraill systemau rheoli i dynnu'r risgiau posibl, fel sy'n briodol i'r tirlenwad perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys y mesurau adfer a ganlyn:

- gosod a rheoli fflachiau nwy tirlenwad yn barhaol;
- ailosod capiau tirlenwi;
- gosod a rheoli draeniad dŵr arwyneb i ostwng maint y trwytholch a manau casglu trwytholch;
- casglu a gwaredu trwytholch yn briodol;
- monitro nwy tirlenwi, trwytholch, dŵr daear a dŵr arwyneb yn barhaus.

5.9.3 Mae cyfanswm o 1130 o safleoedd CBS Wrecsam (heblaw tai) sydd wedi cael eu hadolygu i ganfod pa mor angenrheidiol yw gwaith PRA pellach neu ymchwiliadau safle ymwithiol. Mae'r gwaith ar yr asesiadau hyn wedi cychwyn ac mae'n barhaus.

5.9.2 Cafwyd Asesiad Risg Cychwynnol ar raddfa fawr ar gyfer yr holl dir yn y Fwrdeistref Sirol a allai fod wedi'i effeithio gan gloddio am fetel plwm yn y gorffennol. Casglwyd a blaenoriaethwyd rhestr o 189 o safleoedd i hysbysu CBS Wreccsam ar drefn asesiad pellach.

5.9.5 Cymhlethfa Llwyneinion – mae CBS Wreccsam yn berchen ar ddwy safle a elwir 'Tip Gwastraff Cemegol Monsanto a Morlyn Tar Asid Llwyneinion'. Mae'r ddau wedi cael gwaith archwilio estynedig ar y safle dros nifer o flynyddoedd gan CBS Wreccsam ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (sef Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn). Hyd yn hyn, nid yw unrhyw un o'r ddau safle'n cwrdd â'r diffiniad o dir llygredig er bod monitro rheolaidd parhaus yn digwydd. Mae grŵp cyswllt wedi'i sefydlu i hysbysu'r rhanddeiliaid perthnasol am y gwaith a wnaed a'r monitro rheolaidd parhaus. Yn ogystal, mae Swyddogion yn llunio adroddiadau'n rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu ar Amgylchedd ac Adfywio. Mae dau gyn safle tirlenwi pellach yn ardal Llwyneinion, sy'n eiddo i berchnogion preifat, yn cael eu hasesu dan Ran 2A hefyd.

5.9.6 Mae asesiadau Rhan 2A o dir dan berchnogion preifat yn y Fwrdeistref Sirol wedi eu gweithredu/yn cael eu gweithredu ar y mathau blaenorol o dir (yn ogystal â'r 2 gyn-safle tirlenwi y cyfeirir atynt uchod yng Nghymhlethfa Llwyneinion) - 2 gyn-waith nwy, 2 safle prosesu metel gynt, 2 gyn-safle toddi plwm a chyn-safle tirlenwi.

5.9.7 Roedd rhai o'r safleoedd y cyfeirir atynt uchod wedi'u hariannu drwy'r Rhaglen Cyllido Cyfalaf Tir Llygredig y cyfeirir ati ym mharagraff 3.2.4. Rhwng 2005-2011 dyfarnwyd oddeutu £445,000 am ymchwiliadau safle yn y Fwrdeistref Sirol.

6 PEIRIANWAITH ADOLYGU

6.1 Trosolwg

6.1.1 Yn ôl Rhan 2A mae gofyn i Gyngorau archwilio eu hardaloedd 'o dro i dro' er mwyn canfod tir all fod o fewn y diffiniad statudol o dir llygredig. Felly, ceir gweithdrefnau adolygu'n gyfnodol i werthuso:

- y tybiaethau a wnaed;
- yr wybodaeth a ddefnyddiwyd i asesu problemau mewn gwahanol ardaloedd; a
- rheoli gwybodaeth newydd gan gymryd amgylchiadau lleol i ystyriaeth.

6.1.2 Felly, bydd dwy brif agwedd i adolygiad o fewn y Strategaeth Archwilio:

- cliciedi ar gyfer adolygu penderfyniadau archwilio; ac
- adolygu'r Strategaeth Archwilio ei hun.

6.2 Adolygu Tybiaethau a Gwybodaeth (Cliciedi Archwilio yn y Gorffennol)

6.2.1 Gall statws safle sy'n cynnwys llygredd newid gydag amgylchiadau. Rhai o'r amgylchiadau mwyaf tebygol sy'n gallu effeithio ar statws y tir ac, wedyn, ofyn am adolygu penderfyniadau'r archwiliad yw:

- newidiadau arfaethedig yn y defnydd o'r safle neu dir oddi amgylch, h.y. ailddatblygu. Fel arfer daw hyn o dan y Gyfundrefn Gynllunio (gwelwch baragraff 5.3.5), pryd y bydd angen newid y gronfa ddata llygru tir ond y dylid cynnal asesiad manwl o statws y safle yn y broses gynllunio ;
- newidiadau heb eu cynllunio yn y defnydd o'r tir (e.e. defnydd parhaus, diawdurdod o'r tir gan y cyhoedd);
- digwyddiadau sylweddol heb eu cynllunio (e.e. llifogydd lleol, tirlithriadau, damweiniau (tanau a gollyngiadau)) lle nad oes modd rhoi sylw i'r canlyniadau trwy ddeddfwriaeth berthnasol arall at ddiogelu'r amgylchedd;
- hysbysiadau o effeithiau lleol ar iechyd sy'n ymddangos i fod yn perthyn i ddarn arbennig o dir;
- hysbysiadau profadwy a dderbyniwyd oddi wrth fusnes, y cyhoedd neu fudiadau gwirfoddol o amgylchiadau anghyffredin neu anarferol ar safle;
- sefydlu cyfraith achosion arwyddocaol neu gysail arall;
- diwygio gwerthoedd canllaw ar gyfer asesu bod yn agored i beryglon;
- ymateb i wybodaeth oddi wrth gyrff statudol eraill;
- ymateb i wybodaeth oddi wrth berchnogion neu ddeiliaid tir a rhai perthnasol eraill â diddordeb; a
- derbyn gwybodaeth ddienw.

6.2.2 Lle bydd newidiadau amgylchiadau'n digwydd, bydd y broses asesu perygl ar gyfer y safle arbennig yn cael ei hadolygu i benderfynu ar ymateb priodol. Bydd adolygu tybiaethau a gwybodaeth yn digwydd fel y daw gwybodaeth i law a/neu pan fydd rhyw ddigwyddiad, megis datblygiadau neu ddynodiadau newydd ar gyfer dynodiadau cynefinoedd statudol (SoDdGA), cyflenwadau dŵr preifat ac ati...

6.2.3 Bydd holl drefnau adolygu a phenderfyniadau dilynol yn cael eu dogfennu'n fanwl mewn ffordd gyson (gwelwch baragraff 6.3.4 ac adran 8.1).

6.3 Adolygu Dogfen y Strategaeth Archwilio (Cliciedi Adolygu)

6.3.1 Bydd CBS Wrecsam yn cynnal archwiliad o'r trefnau archwilio yn y Strategaeth hon bob blwyddyn i sicrhau bod:

- ❑ y trefnau'n cynrychioli defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn ateb gofynion y ddeddfwriaeth yn effeithiol; a
- ❑ bod unrhyw addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud fel rhan o drefn reolaidd o reoli ansawdd, gan gynnwys adolygu'r technegau archwilio ac ymchwilio yng ngoleuni trefnau arferion gorau cyfredol.

6.3.2 Adolygir y Strategaeth o leiaf unwaith bob pum mlynedd er mwyn cydnabod prif newidiadau yn adolygiad y tybiaethau a'r wybodaeth a drafodwyd yn adran 6.2, Rhan 2A, Rheoliadau Tir Llygredig (Cymru) 2006 a'r Cyfarwyddyd. Os bydd unrhyw ddeddfwriaeth neu arweiniad awdurdodol yn cael ei addasu neu ei gyflwyno yn y cyfamser, bydd CBS Wrecsam yn cydymffurfio â'r rheiny.

6.3.3 Os gwneir newidiadau allweddol i'r Strategaeth yma, ymgynghorir â'r aelodau etholedig cyn mabwysiadu'r Strategaeth ddiwygiedig.

6.3.4 Gall y cyhoedd weld copi o'r ddogfen hon yn swyddfa CBS Wrecsam ar Ffordd Rhuthun ac ar wefan CBS Wrecsam (www.wrexham.gov.uk).

7 CYSYLLTU A CHYFATHREBU

7.1 Prif Gysylltiadau

7.1.1 Caiff y prif gysylltiadau mewnol ac allanol mewn perthynas â'r Strategaeth a Rhan 2A eu dynodi yn Atodiadau IV a V. Mae'r trefnau ar gyfer ymateb i gyfathrebu oddi wrth eraill a'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu gydag wedi'u manylu yn yr adran hon.

7.2 Gwybodaeth oddi wrth y Cyhoedd, Busnesau, Mudiadau Gwirfoddol ac Eraill â Diddordeb

7.2.1 Bydd gwybodaeth ddaw oddi wrth unrhyw berson neu gorff allanol o ran canfod tir allai fod yn llygredig yn cael ei gymryd o ddirif a'i asesu'n briodol. Gan ddibynnu ar y math o wybodaeth a gafwyd, bydd CBS Wrecsam yn cynnal asesiad manwl yn unol â'r dulliau gweithredu sy'n cael eu rhestru yn adran 5 y strategaeth hon.

7.2.2 Bydd yr wybodaeth yn cael ei hasesu o ran yr elfennau canlynol:

- cryfder y dystiolaeth sydd eisoes ar gael i awgrymu fod llygru'n bodoli;
- brys ymddangosiadol, o ran achosi niwed ar fyrder; ac
- ansawdd yr wybodaeth (er enghraifft, a roddwyd yr wybodaeth yn ddiennw neu beidio (h.y. os oes modd gofyn mwy o gwestiynau) a pha mor ddibynadwy yw'r wybodaeth a roddwyd).

7.2.3 Pan ddaw gwybodaeth i law, bydd llythyr cydnabod yn cael ei anfon at ddarparwr yr wybodaeth ac, os yw'n briodol, bydd y person yn cael clywed beth sy'n digwydd (gwelwch adran 7.4).

7.3 Cysylltiadau Llygrol Trawsffiniol

7.3.1 Gall cysylltiad llygrol ddigwydd ar draws ffin weinyddol CBS Wrecsam, a rhennir ffiniau gyda:

- Cyngor Dinas Caer a Gorllewin Sir Gaer;
- Cyngor Sir y Fflint;
- Cyngor Sir Ddinbych;
- Cyngor Sir Powys; a
- Chyngor Swydd Amwythig.

7.3.2 Lle bydd y sefyllfa hon yn codi, bydd CBS Wrecsam yn rhoi gwybod i'r Cyngor priodol o fewn deg diwrnod gwaith a bydd wedyn yn gweithio gyda'r Cyngor cyfagos i gytuno ar ddull o asesu sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr ac, os bydd angen, adfer y safle. Bydd y Cyngorau'n cytuno ar gynllun gweithredu, gan nodi swyddogaethau'r naill a'r llall wrth benderfynu statws y safle a materion cysylltiedig. Os bydd CBS Wrecsam yn ystyried y gall fod angen camau brys yna bydd yr hysbysu hwn yn digwydd yn ddi-oed.

7.3.3 Yr awdurdod gorfodi fydd y Cyngor sydd â ffynhonnell y llygru yn ei ardal. Bydd y ddwy ochr yn derbyn fod y cytundeb uchod heb ragfarn i'r cyfarwyddyd a deddfwriaeth statudol ac unrhyw gyngor cyfreithiol a dderbyniwyd. Bydd gofyn i Weinidogion Cymru benderfynu unrhyw anghydfod.

7.4 Cyfathrebu gyda Budd-ddeiliaid

7.4.1 Mae CBS Wrecsam yn cydnabod y gall tir all fod yn llygredig fod o bwys nid yn unig i'r perchennog. Bydd defnydd a chyflwr tir yn effeithio ar y gymuned ehangach, yn enwedig os yw'r llygru yn achosi perygl i iechyd dynol. Felly, mae'n hanfodol bod y rhai all deimlo effaith:

- yn cael clywed am unrhyw berygl i'w hiechyd;
- yn cael ymgynghoriad ar gamau arfaethedig o ran tir llygredig; ac
- yn cael clywed am benderfyniadau a wnaed.

7.3.2 I'r gwrthwyneb, mae hefyd yn bwysig atal gwewyr a malltod diachos. Felly rhaid cydbwysu'n ofalus pryd i roi gwybodaeth ac i bwy. Mae'r mwyafrif llethol o safleoedd lle mae llygru yn cael ei amau yn annhebygol o beri unrhyw fgythiad i iechyd y cyhoedd na pherygl i dderbynyddion eraill. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau mai dyma fel y mae, bydd angen i CBS Wrecsam ymchwilio ac asesu pob safle. Felly bydd yr archwiliadau dechreuol yn cael eu cynnal mor ochelgar ag y bydd amgylchiadau'n caniatáu, gyda gwybodaeth am ddarganfyddiadau ar y safle yn cael eu rhannu yn unig rhwng CBS Wrecsam a, phan yn briodol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Os bydd archwiliadau yn gofyn am fwy nag asesiad dechreuol fe fydd angen ymgynghori â pherchennog a/neu ddeiliad y safle o ran sail y pryder, trefn yr archwiliad a goblygiadau tebygol. Bydd yr wybodaeth yn aros yn gyfrinachol nes bydd cysylltiad llygrol sylweddol wedi cael ei sefydlu os oes un. Yr unig eithriad fydd os bydd ailddatblygiad o'r safle yn yr arfaeth a bod CBS Wrecsam yn penderfynu y dylid rhoi'r wybodaeth i'r darpar ddatblygwr, fel y manylir ym mharagraff 5.3.5 o ran y drefn gynllunio.

7.4.3 Os yw'r ymchwiliad o'r safle yn cadarnhau fod y tir yn statudol llygredig, bydd CBS Wrecsam yn ymgynghori â, ac yn hysbysu, yr unigolion neu gyrff fel y manylir yn adran 5.8. Yn ogystal, bydd cysylltu ag eraill all deimlo effaith yn cael ei ystyried o ran: y rheswm am y datganiad; yr effeithiau posibl ar iechyd (os oes rhai); a chanlyniadau tebygol y dynodiad:

- trigolion a thirfeddianwyr o fewn 250m i'r safle (neu ymhellach o dan amgylchiadau penodol);
- cynghorwyr lleol;
- ymgynghoreion statudol pan yn berthnasol (e.e. CCGC); a'r
- Cynghorau Cymuned.

7.4.4 Os bydd gan safle nifer fawr o fudd-ddeiliaid, er mwyn sicrhau bod y strategaeth gyfathrebu yn parhau i ganolbwyntio, gall fod y cyfathrebu gyda nifer cyfyngedig o bobl fydd yn cynrychioli gweddill y budd-ddeiliaid – ar ffurf grŵp cyswllt. Yn dilyn unrhyw gyswllt agoriadol, bydd y budd-ddeiliaid yn dal i gael gwybod am unrhyw ddatblygiadau. Bydd CBS Wrecsam yn trin unrhyw bryderon a gododd y cyhoedd o ddifrif ac, o ganlyniad, bydd ateb clir, agored yn cael ei roi i bob ymholiad.

7.5 Cyfathrebu Peryglon

7.5.1 Fel yr amlygwyd yn nogfen Fforwm yr Alban a Gogledd Iwerddon ar Ymchwil Amgylcheddol (SNIFFER) 'Cyfathrebu Dealltwriaeth o Beryglon Tir Llygredig', 2010, mae modd rhagweld rhai o'r materion ac anawsterau cyfathrebu sy'n debygol o godi oherwydd llygru tir. Mae'r materion hyn yn debygol o ymwneud â diffyg dealltwriaeth o broses asesu a rheoli perygl a'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio mewn perthynas â llygru tir. Bydd CBS Wrecsam yn ystyried dogfen SNIFFER pan yn trafod materion gyda budd-ddeiliaid a'r cyhoedd. Bydd holl gyfathrebu gyda budd-ddeiliaid yn cael ei ddogfennu i sicrhau bod holl budd-ddeiliaid yn cael yr un wybodaeth.

7.6 Darparu Gwybodaeth i Gyfoeth Naturiol Cymru

7.6.1 O bryd i'w gilydd mae gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru baratoi adroddiad ar gyflwr tir llygredig. Bydd CBS Wrecsam yn dilyn y 'Protocol ar Lygru Tir', 2001, a luniwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chymdeithas Llywodraeth Leol o ran sut a pha wybodaeth i'w chyfnwidiad ar gyfer adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru.

7.6.2 Yn ogystal, bydd gwybodaeth am safleoedd a ddynodwyd fel tir llygredig, Hysbysiadau Adfer a gwybodaeth am weithgareddau rheolaethol o ran y safleoedd hyn yn cael ei rhoi i Gyfoeth Naturiol Cymru fel y bydd yn digwydd.

7.7 Cwynion

7.7.1 Mae gan CBS Wrecsam Dîm Cwynion Corfforaethol os bydd unrhyw un yn anfodlon â'r gwasanaeth maent wedi'i dderbyn. Gellir anfon pryderon at y Tîm mewn ebost, llythyr, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Nodir y manylion cyswllt ar we-dudalen CBS Wrecsam ac maent i'w gweld yn Atodiad XI.

7.7.2 Bydd cwynion dienw yn cael eu trin ar wahân, bob yn achos ac, yn y pen draw bydd yn dibynnu ar natur y cwyn.

8 RHEOLI GWYBODAETH

8.1 Cadw Data

8.1.1 Mae tîm Amddiffyn yr Amgylchedd yn gyfrifol am reoli gwybodaeth ynglŷn â materion tir llygredig. Bydd hyn yn golygu bod modd cael system gyson fanwl-gywir o reoli data.

8.1.2 Caiff y data ei storio gan ddefnyddio'r fformatau a ganlyn:

- cronfeydd data MVM a Civicca, mae'r ddwy'n systemau 'annibynnol' diogel;
- meddalwedd windows ar yrriant cyfrifiadur penodol, a dim ond y tîm Amddiffyn yr Amgylchedd all fynd i mewn iddo;
- system GIS, a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth yn ymwneud ag ardaloedd unigol o dir mewn fformat gofodol ac i gadw mapiau hanesyddol;
- fformat papur, oherwydd defnyddir mapiau papur yn ogystal â'r rheiny ar GIS. Mae gwybodaeth a gohebiaeth yn ymwneud yn benodol â'r safle wedi'i storio ar ffeiliau papur ar wahân hefyd.

8.1.3 Bydd gwybodaeth yn cael ei harchwilio i sicrhau ei bod yn ddiweddar ac yn cael ei chofnodi'n gywir. Dim ond y tîm Amddiffyn yr Amgylchedd fydd yn newid neu'n ychwanegu at y data sydd ar gadw ar y gronfa ddata llygru tir.

8.2 Cael Gafael ar Wybodaeth

8.2.1 Yr unig wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yw'r hyn sydd ar y Gofrestr Tir Llygredig (mae'r wybodaeth sydd i'w dal ar y Gofrestr wedi'i rhestru yn Atodiad III). Bydd yr holl wybodaeth arall yn cael ei hystyried yn gyfrinachol a bydd mynediad cyhoeddus yn gyfyngedig o'r herwydd. Dylai Swyddogion CBS Wrecsam sy'n delio â materion llygru drafod pa wybodaeth sydd ar gael gyda'r tîm Amddiffyn yr Amgylchedd.

8.2.2 Bydd y Gofrestr Tir Llygredig ar gael i'w harchwilio ar wefan CBS Wrecsam (www.wrexham.gov.uk) neu trwy gysylltu a thîm Amddiffyn yr Amgylchedd yr Adran Tai a Diogelu'r Amgylchedd yn swyddfeydd y Cyngor ar Ffordd Rhuthun yn ystod oriau swyddfa (9:00am i 5:00pm Dydd Llun i Ddydd Gwener). Mae archwiliad yn ddi-dâl ond, os oes angen copïau, mae pris safonol CBS Wrecsam yn daladwy am bob tudalen. Er mwyn osgoi oedi, neu fod Swyddog gwybodus heb fod ar gael, mae modd trefnu ymlaen llaw. Y disgwyl yw y bydd mynegai o gynnwys y gofrestr yn cael ei baratoi i'w gyhoeddi ar wefan CBS Wrecsam.

